Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu colegau addysg bellach

o Fedi 2017

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- dysgu oedolion yn y gymuned
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben yr arweiniad hwn | 1 |
| Sail gyfreithiol ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach | 1 |
| **Rhan 1: Cynnal arolygiadau** | **2** |
| Cyflwyniad | 2 |
| Egwyddorion arolygu | 2 |
| Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr | 2 |
| Disgwyliadau darparwyr | 3 |
| Iechyd a diogelwch | 3 |
| Ymateb i honiad ynghylch diogelu | 3 |
| Dull arolygu | 4 |
| Yr ystafell arolygu rithwir | 5 |
| Y tîm arolygu | 5 |
| Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad | 6 |
| Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm | 7 |
| Yn ystod yr arolygiad | 8 |
| Bodloni gofynion statudol | 11 |
| Ar ôl yr arolygiad | 11 |
| Sicrhau ansawdd arolygiadau | 11 |
| **Rhan 2: Adrodd ar farnau** | **13** |
| Adroddiadau ar feysydd dysgu cam un | 13 |
| Cyd-destun y maes dysgu cam un | 13 |
| Argymhellion cam un | 13 |
| Barnu cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd yng ngham un | 13 |
| Adroddiadau cam dau | 15 |
| Adran cyd-destun cam dau | 17 |
| Crynodeb cam dau | 17 |
| Barn gyffredinol ar berfformiad presennol y coleg | 17 |
| Barn gyffredinol ar ragolygon gwella'r coleg | 17 |
| Argymhellion | 18 |
| Barnu cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd yng ngham dau | 18 |
| Disgrifiadau barn – cam un a cham dau | 18 |
| **Dangosyddion ansawdd – cam un** | **19** |
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | 19 |
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | 25 |
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | 32 |
| **Dangosyddion ansawdd – cam dau** | **36** |
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | 36 |

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? 40
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? 48

**Atodiad 1: Y Fframwaith Arolygu Cyffredin 55**
**Atodiad 2: Ffynonellau tystiolaeth 57**
**Atodiad 3: Rheoliadau ac arweiniad 61**
**Atodiad 4: Gwrando ar ddysgwyr 64**
**Atodiad 5: Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol 64**
**Atodiad 6: Arweiniad ar ddefnyddio data wrth arolygu colegau addysg bellach 65**
**Atodiad 7: Arweiniad ar weithgarwch dilynol 68**

# Cyflwyniad

## Diben yr arweiniad hwn

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn arolygu colegau addysg bellach o 2017 - 2018.

Dibenion arolygu yw:

- darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill trwy ein hadroddiadau cyhoeddus ar ddarparwyr
- hyrwyddo gwelliant mewn addysg a hyfforddiant
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Mae'r arolygiaeth yn cynnal arolygiad craidd ar gyfer pob darparwr. Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut byddwn yn cynnal arolygiadau craidd. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryder yn ymwneud â safonau, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant, neu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth, yna bydd yr arolygiaeth yn cynnal gweithgarwch dilynol â'r darparwr. Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am weithgarwch dilynol yn Atodiad 7.

Mae rhan un yr arweiniad hwn yn ymwneud â chynnal arolygiad, ac mae rhan dau yn ymwneud ag adrodd ar farnau.

Gall colegau ddefnyddio'r arweiniad i ddeall sut mae arolygiadau'n gweithio a'u helpu wrth iddynt gynnal eu hunanasesiad eu hunain. Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar arolygiadau ar wefan yr arolygiaeth www.estyn.llyw.cymru .

## Sail gyfreithiol ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach

Yn y sector ôl-16, mae'r Ddeddf Addysg a Sgiliau (2000) yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi adrodd ar:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir
- y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n derbyn addysg a hyfforddiant
- a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio i ddarparu gwerth am arian

Mae'r arweiniad hwn yn edrych yn fanylach ar y meysydd hyn.

# Rhan 1: Cynnal arolygiadau

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi ei hamlinellu mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r arolygiad, ac ar gyfer yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau'r tîm gydymffurfio â'r gofynion arolygu, fel y maent yn berthnasol iddynt.

## Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymateb i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod barnau'n gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi eu seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys colegau'n llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys defnyddio enwebeion
- yn defnyddio adroddiad hunanasesu'r coleg fel y man cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac yn nodi materion allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd ei ganfyddiadau
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn sicrhau cyn lleied â phosibl o ofynion ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y coleg
- yn cael safbwynt y dysgwyr a safbwynt rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog, lle bynnag y bo'n briodol
- bod yn adeiladol wrth nodi a chynorthwyo colegau sydd â meysydd pwysig i'w gwella

## Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau yng nghod ymddygiad Estyn. Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol
- yn arfarnu gwaith y darparwr yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd darpariaeth ac arweinyddiaeth ar eu cyfraniad i ddeilliannau ac nid ar sail unrhyw hoffter o ddulliau penodol. Yr allwedd i'r farn yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'r diben o gyflawni safonau uchel o waith i bob dysgwr ai peidio.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant yn cael eu dyrannu i arolygiad y gall y cyfryw faterion godi ynddo.

## Disgwyliadau darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd gwaith proffesiynol ar sail cwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Disgwylir i arolygwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad Estyn, ac rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- cymhwyso eu codau ymddygiad eu hunain wrth ymdrin ag arolygwyr
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn modd agored a gonest
- galluogi arolygwyr i arfarnu darpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- defnyddio systemau electronig Estyn i reoli arolygiadau, yn ôl y gofyn
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy ar eu darpariaeth
- cynnal deialog bwrpasol â'r arolygydd cofnodol a'r tîm arolygu
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon ynghylch yr arolygiad mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai neu uwch arweinydd
- cydweithio ag arolygwyr i sicrhau cyn lleied â phosibl o amhariad a straen yn ystod yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar y safle

Pan fyddant yn cael gwybod eu bod am gael eu harolygu, dylai darparwyr adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb darparwyr yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn i'w harolygiad ddechrau.

## Iechyd a diogelwch

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau'n unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar iechyd a diogelwch. Os byddant yn gweld unrhyw beth sy'n achosi perygl amlwg i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, yn eu barn nhw, dylent roi gwybod i reolwyr yn y darparwr sy'n cael ei arolygu. Dylent roi gwybod iddynt os byddant yn sylwi ar fygythiadau llai amlwg hefyd. Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r bygythiad a chofnodi'r ffaith bod y rheolwyr perthnasol wedi cael gwybod amdano. Dylent roi copi o'r cofnod hwn i'r swyddog iechyd a diogelwch arweiniol yn yr arolygiaeth. Dylai arolygwyr adrodd ar achosion amlwg o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch yng Nghwestiwn Allweddol 2.

## Ymateb i honiad ynghylch diogelu

Os caiff arolygydd wybod am honiad/amheuaeth yn ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, bydd yr arolygydd hwnnw'n dilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar wefan Estyn.

## Dull arolygu

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer arolygiadau craidd o golegau. Caiff yr arolygiadau hyn eu cynnal mewn dau gam. Y cam cyntaf fydd yr arolygiad o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn meysydd dysgu. Yr ail gam fydd yr arolygiad o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws y coleg cyfan. Bydd yr arolygiadau hyn yn cael eu hategu gan weithgarwch dilynol ar lefel meysydd dysgu neu'r coleg cyfan ar gyfer y colegau hynny y canfuwyd, trwy'r arolygiad craidd, eu bod yn tanberfformio.

### Cam un

Bydd cyfnod un arolygiad yn cynnwys nifer ddethol o feysydd dysgu. Bydd Estyn yn penderfynu ar y meysydd dysgu i'w harolygu yn ôl ystod o feini prawf, gan gynnwys:

- **Y canran o ran cwblhau llwyddiannus ar gyfer meysydd sector pwnc, uwchlaw ac islaw'r meincnod cenedlaethol**. Bydd Estyn yn ystyried y meysydd dysgu sydd yn y chwarteli uchaf ac isaf yn erbyn meincnodau cenedlaethol ar gyfer cwblhau pob cwrs a chyrsiau sylweddol yn llwyddiannus (y rhai sy'n gyfwerth â, neu'n fwy na, 150 o oriau dysgu dan arweiniad).
- **Y gyfradd o ran cwblhau cyrsiau'n llwyddiannus yn erbyn meincnodau cenedlaethol**. Bydd Estyn yn ystyried yr holl ddata yn erbyn meincnodau, gan gynnwys meysydd sector pwnc, pynciau unigol a chyrsiau unigol oddi mewn i bynciau.
- **Nifer y dysgwyr ar gyrsiau**. Bydd Estyn yn ystyried nifer y dysgwyr ar gyrsiau er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth gyfartal i gyrsiau â niferoedd bach a niferoedd mawr o ddysgwyr.
- **Ystod y ddarpariaeth a lefelau cyrsiau**. Bydd Estyn yn ystyried ystod y cyrsiau a gynigir gan y darparwr ym mhob maes sector pwnc a lefel y cyrsiau hynny, er mwyn ystyried cyfleoedd dilyniant wrth ddewis meysydd dysgu.
- **Gwybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer yr ardal benodol y mae'r coleg yn ei gwasanaethu**. Bydd Estyn yn ystyried ardal ddaearyddol ac economaidd y darparwr unigol er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i'r colegau hynny sy'n cynnig pynciau penodol, fel cyrsiau seiliedig ar dir, garddwriaeth a cheffylau.
- **Lleoliadau a safleoedd darpariaeth**. Bydd Estyn yn ystyried y safleoedd a'r lleoliadau ar gyfer y darparwr unigol ac yn rhoi ystyriaeth gyfartal i bob safle er mwyn sicrhau'r sylw arolygu gorau posibl i ddarpariaeth.
- **Themâu ac ymchwil bresennol Estyn**. Bydd Estyn yn ystyried anghenion a gofynion gwybodaeth ac ymchwil Llywodraeth Cymru ac ar gyfer gwybodaeth Estyn.

Y man cychwyn ar gyfer arolygu fydd asesiad y maes dysgu o'i berfformiad ei hun. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar ddarpariaeth yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi arfarniad y maes dysgu ei hun o'i waith. Bydd tîm arolygu'r maes dysgu yn defnyddio data a hunanasesiad y maes dysgu i benderfynu ar y trywyddau ymholi i'w dilyn.

Y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni a'r cynnydd a wnânt yw'r mesur allweddol o ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi eu cael, ac o effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y meysydd dysgu. Bydd y prif ffocws bob amser ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni.

Fel arfer, caiff cam un yr arolygiad ei gynnal yn ystod un wythnos waith, er y gall nifer y diwrnodau a gymerir gan arolygwyr unigol amrywio yn ôl maint y coleg.

Bydd cam un yn llunio adroddiad unigol ar gyfer pob maes dysgu a arolygwyd. Bydd y rhain yn cynnwys barnau ar safonau a darpariaeth y maes dysgu, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer y maes dysgu. Caiff yr adroddiadau eu cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad ar y coleg cyfan.

**Cam dau**

Fel arfer, cynhelir cam dau yr arolygiad yn ystod yr wythnos ar ôl yr arolygiad cam un.

Y man cychwyn ar gyfer cam dau fydd y dystiolaeth a gasglwyd o gam un, ynghyd ag adroddiad hunanarfarnu'r coleg a setiau data cyffredinol y coleg. Caiff trywyddau ymholi eu penderfynu gan y tîm arolygu cam dau. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y coleg yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi asesiad y coleg o'i waith ei hun.

Fel arfer, bydd cam dau yn para pum niwrnod gwaith, er y gall nifer y diwrnodau amrywio yn ôl anghenion a maint y sefydliad.

Bydd cam dau yn llunio adroddiad ar lefel y coleg. Bydd yr adroddiad yn cynnwys barnau ar y tri chwestiwn allweddol a'r deg dangosydd ansawdd. Bydd yn cynnwys barn ar berfformiad presennol y coleg a'i ragolygon gwella, yn ogystal ag argymhellion.

Cynhelir pob arolygiad yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth www.estyn.llyw.cymru ac sy'n cael ei ategu gan arweiniad atodol ar arolygu datblygu'r iaith Gymraeg ac arolygu llythrennedd a rhifedd.

## Yr ystafell arolygu rithwir (YAR)

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig i reoli rhai agweddau ar yr arolygiad. Yr enw ar y system hon yw'r 'ystafell arolygu rithwir' (YAR). System ar y we yw hon sy'n galluogi darparwyr i lanlwytho gwybodaeth ar gyfer yr arolygiad ac i arolygwyr gofnodi canfyddiadau.

Hefyd, yr YAR yw'r man lle y gall darparwyr weld arweiniad yr enwebai ar baratoi ar gyfer yr arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygiad. Mae cyfres gynhwysfawr o ddogfennau arweiniad a fideos ar gael ar wefan Estyn i helpu darparwyr i ddeall y system a'i defnyddio.

## Y tîm arolygu

Caiff cam un a cham dau eu harwain gan arolygydd cofnodol, a all fod yn AEM neu'n arolygydd ychwanegol, a chaiff aelodau eraill y tîm eu cymryd o blith AEM, arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio yn y sector ar hyn o bryd. Mae arolygwyr cymheiriaid yn aelodau llawn o'r tîm arolygu.

Yr arolygydd cofnodol sy'n rheoli'r tîm arolygu a'r broses arolygu gyfan, ac ef/hi yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r arolygiad.

Caiff colegau eu gwahodd i enwebu uwch aelod staff i gydweithio â'r tîm arolygu. Bydd gan yr enwebai hynafedd digonol i weithredu fel cysylltiad rhwng y coleg a'r tîm arolygu, ond nid oes angen iddo/iddi fod yn arweinydd y coleg.

## Cysylltu â'r coleg cyn yr arolygiad

Bydd y coleg yn cael pedair wythnos waith o rybudd am yr arolygiad. Ar ôl hyn, bydd yr arolygiaeth yn cysylltu â'r coleg dros y ffôn i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd yr arolygiaeth:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad ac yn gwneud y trefniadau ar gael ei chael ar ffurf electronig trwy'r ystafell arolygu rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol ar iechyd a diogelwch i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad
- yn cadarnhau a yw'r coleg yn dymuno cael enwebai ai peidio ac, os ydyw, yn esbonio rôl yr enwebai
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, gan gynnwys samplau o waith dysgwyr
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a all godi yn ystod yr arolygiad
- yn trefnu i aelodau o'r corff llywodraethol gyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel ystafelloedd sylfaen ar gyfer yr arolygwyr a lleoedd parcio
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi holiaduron ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r coleg y caiff materion allweddol eu cadarnhau'n ysgrifenedig

Bydd yr arolygiaeth yn gofyn am y wybodaeth ganlynol cyn gynted â phosibl:

- gwybodaeth gefndir allweddol am y coleg; a
- manylion am amserlenni'r meysydd dysgu dethol ar gyfer cyfnod yr arolygiad.

Os bydd yr arolygiad yn cael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn academaidd, gall yr arolygiaeth ofyn am samplau o waith dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol.

Bydd yr arolygiaeth yn cysylltu â'r darparwr i gael y fersiwn ddiweddaraf o adroddiad hunanasesu (AHA) a chynllun datblygu ansawdd (CDA) y meysydd dysgu a'r coleg. Bydd yr arolygiaeth yn gofyn i'r coleg roi gwybod i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill am yr arolygiad. Bydd yn arolygiaeth yn rhoi gwybod i'r coleg am y gweithdrefnau ar gyfer cael barnau dysgwyr.

Pan gaiff colegau eu hysbysu ynglŷn ag arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i ddosbarthu arolwg cyfrinachol ar-lein o ganfyddiadau dysgwyr. Bydd canlyniadau'r arolygon hyn yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad. Bydd y tîm hefyd yn ystyried yr arolwg diweddaraf o ganfyddiadau dysgwyr a gynhaliwyd gan y coleg.

Bydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr yn ystod yr arolygiad i gael eu safbwyntiau ar faterion, yn ogystal â dilyn trywyddau ymholi a nodwyd.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Wrth ystyried yr adroddiadau hunanasesu ac unrhyw wybodaeth sydd gan yr arolygiaeth eisoes, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygiaeth yn trefnu i gael gwybodaeth am y coleg gan Lywodraeth Cymru.

### Cam un

Bydd gan dîm pob maes dysgu arolygydd arweiniol maes dysgu. Bydd nifer yr arolygwyr tîm ar gyfer pob maes dysgu yn amrywio gan ddibynnu ar ehangder, maint a lleoliad daearyddol y ddarpariaeth. Bydd timau arolygu meysydd dysgu'n adolygu sylwebaeth cyn-arolygiad (SCA) ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. Bydd hyn yn cynnwys rhagdybiaethau ar sail yr adroddiad hunanasesu a gwybodaeth arall y bydd arolygwyr yn ei defnyddio i gyfeirio trywyddau ymholi yn ystod yr arolygiad. Bydd arolygydd arweiniol y maes dysgu, mewn ymgynghoriad â'r arolygydd cofnodol, yn adolygu'r dadansoddiad data ar gyfer timau'r meysydd dysgu er mwyn eu helpu i nodi trywyddau ymholi. Y brif ffynhonnell ddata y bydd arolygwyr yn ei defnyddio yw data cyhoeddedig swyddogol Llywodraeth Cymru, sy'n deillio o gronfa ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC). Bydd arolygwyr yn defnyddio adroddiadau deilliannau dysgu, cyhoeddiadau ystadegol, tablau o gymaryddion cenedlaethol a phyrth gwybodaeth, fel StatsCymru a Hysbysu Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC).

Bydd arolygwyr yn defnyddio tablau a luniwyd gan Estyn o ddata CDGOC Llywodraeth Cymru, sy'n cymharu colegau ac yn dangos safle'r coleg a'i dueddiadau perfformiad dros amser.

Bydd timau meysydd dysgu yn cynllunio'r dosbarthiadau i'w harsylwi, teithiau dysgu, cyfarfodydd a'r amserlen ar gyfer yr wythnos. Bydd arolygydd arweiniol y maes dysgu yn cysylltu â rheolwr y maes dysgu trwy gydol cam un yr arolygiad ac yn arwain ar gynllunio a sicrhau ansawdd yr arolygiad cam un.

### Cam dau

Caiff y tîm arolygu cam dau ei arwain gan yr arolygydd cofnodol. Bydd nifer aelodau'r tîm yn amrywio gan ddibynnu ar anghenion yr arolygiad. Bydd tîm arolygu cam dau yn adolygu sylwebaeth cyn-arolygiad (SCA) ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad cam dau. Bydd hyn yn cynnwys rhagdybiaethau ar sail adroddiad hunanasesu'r coleg, data coleg cyfan a gwybodaeth arall, gan gynnwys tystiolaeth o gam un. Bydd arolygwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi trywyddau ymholi ar gyfer yr arolygiad cam dau. Bydd tîm arolygu cam dau yn cynllunio cyfarfodydd a'r amserlen ar gyfer cam dau.

## Yn ystod yr arolygiad

Yn ystod cyfarfodydd cychwynnol y timau arolygu yng ngham un a cham dau, bydd sesiwn friffio iechyd a diogelwch gan y coleg, a sesiwn friffio ar weithdrefnau diogelu'r coleg.

Bydd y timau arolygu'n sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen i lunio barnau. Bydd y timau'n canolbwyntio ar dystiolaeth allweddol y gellir ei defnyddio i gadarnhau eu barnau. Bydd y prif fathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru
- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys data ar ddeilliannau, perfformiad a chynnydd dysgwyr
- arsylwi sesiynau addysgu neu hyfforddi a gweithgareddau eraill
- samplau o waith dysgwyr
- barnau dysgwyr a rhanddeiliaid eraill
- trafodaethau â staff, arweinwyr a rheolwyr, llywodraethwyr ac eraill

Mae manylion am y prif ffynonellau tystiolaeth wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.

Bydd y timau'n defnyddio arsylwi uniongyrchol o waith, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, i gasglu tystiolaeth i ategu barnau. Gall arolygwyr ddewis rhagor o samplau o waith dysgwyr i fodloni anghenion trywydd ymholi penodol.

Mae gwrando ar ddysgwyr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth o'u cyflawniad, eu hagweddau a'u lles. Bydd trafodaethau'n darparu cyfle i archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'u gwaith, a pha mor dda y maent yn teimlo bod y coleg yn eu cefnogi ac yn cyfrannu at eu lles. Bydd arolygwyr yn cyfarfod â samplau cynrychioliadol o ddysgwyr, gan ddibynnu ar y trywyddau ymholi a ddewiswyd ar gyfer cam un a cham dau. Bydd arolygwyr yn ystyried barn dysgwyr o ystod o ffynonellau, gan gynnwys Llais y Dysgwr Cymru. Gellir rhoi disgwyliad rhesymol o gyfrinachedd i ddysgwyr, ac eithrio unrhyw ddatgeliad yn ymwneud â diogelu.

Dylai colegau drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn enwedig canlyniadau asesiadau cychwynnol. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr a llunio barn am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn.

Bydd angen i'r tîm ystyried barn rhanddeiliaid ar y coleg a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad er mwyn llunio barnau.

Yng ngham un, bydd arolygwyr arweiniol meysydd dysgu yn ymgynghori â'r enwebai a rheolwyr meysydd dysgu trwy gydol yr arolygiad i drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder, egluro materion arolygu a chael rhagor o wybodaeth. Byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r arolygydd cofnodol.

Yng ngham dau, bydd yr arolygydd cofnodol yn ymgynghori â'r enwebai i drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder, egluro materion arolygu a chael rhagor o wybodaeth. Bydd yr arolygydd cofnodol yn trafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn gryno â phennaeth y coleg yn ddyddiol.

## Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn defnyddio ffurflenni barnau (FfBau) i gofnodi eu canfyddiadau a'u barnau. Gall y rhain ymwneud ag arsylwi gweithgareddau dysgu, trafodaethau â dysgwyr, cyfweliadau â staff, cyfweliadau ag arweinwyr a rheolwyr, craffu ar ddogfennau, gwybodaeth am berfformiad a samplau o waith dysgwyr.
Bydd arolygwyr yn llenwi'r ffurflenni barnau (FfBau) yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

## Cyfarfodydd tîm ar gyfer cam un

Bydd aelodau timau meysydd dysgu'n cyfathrebu â'i gilydd yn rheolaidd yn ystod cam un yr arolygiad.

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cywir, corfforaethol ac sydd wedi ei brofi'n drylwyr am safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn y maes dysgu. Bydd timau meysydd dysgu'n llunio barnau corfforaethol ar sail tystiolaeth ddigonol, ddilys a dibynadwy.

Bydd gan gyfarfodydd agendâu clir a bydd cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yn adroddiad hunanasesu'r maes dysgu
- datrys materion a rhagdybiaethau cyn-arolygiad
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg a thrywyddau ymholi
- trafod unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad

## Deialog broffesiynol yng ngham un

Ar ddiwedd sesiwn arsylwi, dylai arolygwyr, cyhyd ag y bo'n ymarferol, gynnal rhywfaint o ddeialog broffesiynol â'r aelod staff ar y gwaith a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cael trafodaeth lawnach yn ddiweddarach ac, os felly, dylid trefnu hyn ar ddiwedd y sesiwn. Dylid dweud wrth yr aelod staff dan sylw mai canfyddiadau dros dro yw'r rhain ar un agwedd o'r dystiolaeth, ac y gall y rhain gael eu diwygio, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar waith dysgwyr neu siarad â dysgwyr, neu o ganlyniad i gymedroli oddi mewn i'r tîm. Am y rheswm hwn, ni ddylai arolygwyr drafod unrhyw arfarniadau cyffredinol dros dro, ond dylent geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gwaith a welwyd.

## Adborth ffurfiol ar gyfer cam un

Ar ddiwedd cam un, bydd tîm arolygu pob maes dysgu'n rhoi adborth llafar i reolwyr y meysydd dysgu perthnasol. Bydd yr adborth yn cyfleu'r prif farnau ar gyfer safonau a darpariaeth ar gyfer y maes dysgu a arolygwyd, ac argymhellion tîm arolygu'r maes dysgu. Bydd yr adborth hefyd yn cyfleu cryfderau a meysydd i'w gwella yn arweinyddiaeth y meysydd dysgu a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i gam dau fel tystiolaeth ar gyfer cwestiwn allweddol 3.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Bydd yr adborth yn canolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Bydd yr arolygydd cofnodol yn esbonio i'r darparwr y gall materion gael eu codi a'u trafod, gall materion ffeithiol gael eu cywiro a gall

barnau gael eu hegluro, er nad ydynt yn agored i drafodaeth. Dylai fod cysondeb bras rhwng yr arfarniad sy'n cael eu hadrodd yn ôl a'r hyn sy'n ymddangos yn yr adroddiad ysgrifenedig, oni bai bod angen newid yr arfarniadau o ganlyniad i sicrwydd ansawdd yn yr arolygiaeth ar ôl yr arolygiad cam un.

Mae'r holl farnau yr adroddir arnynt yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu cymedroli. Maent yn gyfrinachol i'r coleg nes cyhoeddi'r adroddiad. Caiff barnau dros dro eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

**Cyfweliadau**

Gellir cynnal cyfweliadau â staff, llywodraethwyr a phartneriaid yn ystod cam un a cham dau yr arolygiad. Gellir rhoi disgwyliad rhesymol o gyfrinachedd i gyfweleion, ac eithrio unrhyw ddatgeliad yn ymwneud â diogelwch.

**Cyfarfodydd tîm ar gyfer cam dau**

Bydd tîm cam dau'n cyfathrebu'r rheolaidd yn ystod cam dau yr arolygiad.

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cywir, corfforaethol ac sydd wedi ei brofi'n drylwyr am safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws y coleg. Bydd timau meysydd dysgu'n llunio barnau corfforaethol ar sail tystiolaeth ddigonol, ddilys a dibynadwy.

Bydd gan gyfarfodydd agendâu clir a bydd cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yn adroddiad hunanasesu'r maes dysgu
- datrys materion a rhagdybiaethau cyn-arolygiad
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg a thrywyddau ymholi
- trafod unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad

**Adborth ffurfiol ar gyfer cam dau**

Ar ddiwedd cam dau, bydd tîm arolygu cam dau yn rhoi adborth llafar i bennaeth y coleg, yr uwch dîm gweithredol a chadeirydd y llywodraethwyr. Efallai y bydd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn bresennol hefyd. Bydd yr adborth yn cyfleu'r prif farnau ar gyfer y tri chwestiwn allweddol a'r deg dangosydd ansawdd ar gyfer y coleg, y farn gyffredinol ar gyfer perfformiad presennol a'r farn ar gyfer rhagolygon gwella, yn ogystal ag argymhellion y tîm arolygu.

**Gweithgarwch dilynol**

Yn ystod pob arolygiad cam un a cham dau, bydd y timau arolygu'n ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y maes dysgu neu'r coleg, a bydd yn adrodd yn ôl yn glir i arweinwyr a rheolwyr ynghylch a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol yn ystod y cyfarfod adborth ffurfiol.

Mae Atodiad 7 yn amlinellu arweiniad yr arolygiaeth ar weithgarwch dilynol.

## Bodloni gofynion statudol

Caiff colegau eu llywodraethu gan ystod o ofynion statudol. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i golegau arfarnu pa mor effeithiol y maent yn bodloni'r gofynion hyn trwy eu gweithdrefnau hunanasesu arferol eu hunain. Dylent nodi pa mor dda y maent yn bodloni'r gofynion hyn yn eu hadroddiad hunanasesu. Gall arolygwyr ddefnyddio'r adroddiad hunanasesu a gwybodaeth arall i nodi unrhyw faterion mewn perthynas â pha mor effeithiol y mae coleg yn bodloni ei ofynion statudol. Byddant yn ymchwilio i'r materion hyn ymhellach yn ystod yr arolygiad pan fyddant yn debygol o gael effaith sylweddol ar safonau ac ansawdd.

Os methir bodloni gofynion statudol sy'n effeithio ar ansawdd a safonau, adroddir ar hyn yn y testun a gall arwain at farn nad yw'n uwch na digonol ar gyfer y dangosydd ansawdd perthnasol.

Mae manylion am y gofynion statudol perthnasol wedi eu cynnwys yn Atodiad 3.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r coleg.

Bydd Estyn yn cyhoeddi un adroddiad cyffredinol ar ddeilliannau'r arolygiad. Bydd hwn yn cynnwys adroddiadau ar bob maes dysgu a arolygwyd, yn ogystal â deilliannau'r arolygiad o'r coleg cyfan. Wrth ysgrifennu adroddiadau, bydd arolygwyr yn ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru .

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi cyn pen terfynau amser statudol neu derfynau amser cytûn y sector. Bydd yr arolygiaeth yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i bennaeth y coleg er mwyn helpu i wirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Mae gan y coleg bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a chodi unrhyw bryderon yn ymwneud â'i gywirdeb ffeithiol.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog, pan ofynnir i ni wneud hynny, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Estyn.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Mae'r arolygiaeth wedi ymrwymo i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cynorthwyo a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid
- cynnig hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol er mwyn galluogi'r enwebai i chwarae rôl weithredol
- cynnal deialog reolaidd â phennaeth y sefydliad yn ystod yr arolygiad
- cynnig meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ac arweiniad
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus

- rhoi adborth llafar diamwys ar y barnau cryno, y cwestiynau allweddol a'r dangosyddion ansawdd
- llunio adroddiadau sy'n gyson glir, cywir ac wedi eu cyflwyno'n dda
- cynnal gweithgareddau cymedroli a gwella ansawdd mewnol priodol, gan gynnwys monitro arolygiadau fel y bo'n briodol

Yn ystod yr arolygiad, gall yr arolygydd sicrhau ansawdd fod yn bresennol unrhyw adeg yn ystod cam un neu gam dau. Fel arfer, bydd yn mynychu pob cyfarfod cymedroli er mwyn dilysu'r dystiolaeth a herio barnau'r timau arolygu.

Fel rhai o'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd, mae'r arolygiaeth yn gwahodd colegau i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i golegau yn yr YAR. Dylai colegau lenwi rhan gyntaf yr holiadur yn syth ar ôl yr arolygiad ar y safle a'i gyflwyno'n electronig i Estyn trwy system yr YAR. Gall colegau lenwi ail ran yr holiadur ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, eto trwy system yr YAR.

Dylai colegau godi unrhyw bryderon yn ymwneud â'r modd mae arolygiad yn cael ei gynnal â'r arolygydd cofnodol yn ystod yr arolygiad. Hefyd, dylid trafod unrhyw wrthwynebiad i ganfyddiadau arolygiad â'r arolygydd cofnodol wrth iddynt ddod i'r amlwg yn ystod yr arolygiad. Caiff sicrwydd ansawdd cychwynnol yr arolygiad ei gynnal gan yr arolygydd cofnodol, a chaiff ansawdd pob arolygiad ac adroddiad ei sicrhau gan yr arolygiaeth yn unol â'i phrotocolau sicrhau ansawdd. Bydd ansawdd sampl o arolygiadau yn cael ei sicrhau gan yr arolygiaeth

Caiff trefniadau Estyn ar gyfer delio â chwynion eu hamlinellu yn 'Gweithdrefnau ar gyfer Delio â Chwynion', sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth www.estyn.llyw.cymru .

## Rhan 2: Adrodd ar farnau

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn dangos sut i lenwi'r adrannau am y meysydd dysgu a'r coleg, y crynodeb ac argymhellion yr adroddiadau, ac mae'n amlinellu'r gofynion adrodd ar gyfer pob cwestiwn allweddol.

### Adroddiadau ar feysydd dysgu cam un

Bydd yr adroddiad ar gyfer cam un yn dilyn y ffurf ganlynol:

| |
|---|
| Cyd-destun y maes dysgu:<br><br>Argymhellion y maes dysgu<br><br>Prif ganfyddiadau<br><br>Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?<br><br>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? |

### Cyd-destun y maes dysgu cam un

Bydd adran cyd-destun yr adroddiadau meysydd dysgu'n cynnwys gwybodaeth gryno am y maes dysgu.

Gall yr adran hon gynnwys gwybodaeth gryno am:

- nifer a natur y dysgwyr;
- lleoliad darpariaeth y maes dysgu;
- ystod a lefelau'r rhaglenni dysgu sy'n cael eu cynnig; ac
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

### Argymhellion cam un

Dylai'r argymhellion roi syniad clir a phenodol i'r maes dysgu o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddo fynd i'r afael â nhw yn ei gynllun gweithredu. Dylai arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn eu blaenoriaeth a, lle bo angen codi safonau cyflawniad neu gyrhaeddiad, dyma fydd y brif flaenoriaeth. Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif farnau a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall y coleg weithredu arni. Rhaid i arolygwyr gyfeirio at unrhyw faterion arwyddocaol a nodwyd yn yr adroddiad lle nad yw arfer y maes dysgu yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

### Barnu cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd yng ngham un

Yng ngham un, bydd timau arolygu'r meysydd dysgu yn arolygu'r meysydd dysgu yn erbyn pob un o'r cwestiynau allweddol a'r holl ddangosyddion ansawdd yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Byddant yn llunio sylwebaeth arfarnol ar gyfer pob

dangosydd ansawdd, a fydd yn ffurfio adroddiad y maes dysgu. Byddant yn llunio dwy farn: ar gyfer safonau a darpariaeth. Ni fyddant yn llunio barnau ar gyfer arweinyddiaeth, ond byddant yn darparu crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella i'w dwyn ymlaen fel tystiolaeth ar gyfer barnau ar arweinyddiaeth yng ngham 2. Ni fyddant yn llunio barnau yn erbyn dangosyddion ansawdd unigol ac ni fydd barn gyffredinol ar gyfer perfformiad presennol na rhagolygon gwella.

Fel gofyniad craidd, byddant yn cynnwys yr agweddau canlynol o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin:

**Cwestiwn Allweddol 1**

1.1 Safonau
- canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol
- safonau grwpiau gwahanol o ddysgwyr
- cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu
- medrau
- yr iaith Gymraeg

1.2 Lles
- agweddau at gadw'n iach a diogel
- cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau
- ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau
- medrau cymdeithasol a medrau bywyd

**Cwestiwn Allweddol 2**

2.1 Profiadau dysgu
- bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned
- darpariaeth ar gyfer medrau
- darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig
- addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

2.2 Addysgu neu hyfforddi
- ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi
- asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
- darpariaeth ar gyfer iechyd a lles
- gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol
- trefniadau diogelu
- anghenion dysgu ychwanegol

2.4 Yr amgylchedd dysgu
- ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth
- amgylchedd ffisegol

**Cwestiwn Allweddol 3**

3.1 Arweinyddiaeth
- cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth
- llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill

3.2 Gwella ansawdd
- hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill
- cynllunio a sicrhau gwelliant

3.3 Gweithio mewn partneriaeth
- partneriaethau strategol
- cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

3.4 Rheoli adnoddau
- rheoli staff ac adnoddau
- gwerth am arian

**Adroddiadau cam dau**

Bydd yr adroddiad arolygu'n cynnwys barnau ar ddwy farn gryno gyffredinol, tri chwestiwn allweddol a 10 dangosydd ansawdd ar gyfer y coleg cyfan. Bydd yr adroddiad cyffredinol yn cynnwys adroddiad ar bob maes dysgu a arolygwyd a barnau ar gyfer y tri chwestiwn allweddol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer y coleg cyfan a phob maes dysgwyr a arolygwyd. Bydd yr adroddiad cyffredinol ar y ffurf ganlynol:

**Cyd-destun y coleg**

**Crynodeb y coleg**

- barn gyffredinol ar berfformiad presennol
- barn gyffredinol ar ragolygon gwella

**Argymhellion y coleg**

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1**

1.1 Safonau
- 1.1.1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol
- 1.1.2 safonau grwpiau gwahanol o ddysgwyr
- 1.1.3 cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu
- 1.1.4 medrau
- 1.1.5 yr iaith Gymraeg

1.2 Lles
- 1.2.1 agweddau at gadw'n iach a diogel

- 1.2.2 cyfranogiad mewn dysgu a'i fwynhau
- 1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau
- 1.2.4 medrau cymdeithasol a medrau bywyd

**Cwestiwn Allweddol 2**

2.1 Profiadau dysgu
- 2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned
- 2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau
- 2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig
- 2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

2.2 Addysgu neu hyfforddi
- 2.2.1 ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi
- 2.2.2 asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
- 2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles
- 2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol
- 2.3.3 trefniadau diogelu
- 2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol

2.4 Yr amgylchedd dysgu
- 2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth
- 2.4.2 amgylchedd ffisegol

**Cwestiwn Allweddol 3**

3.1 Arweinyddiaeth
- 3.1.1 cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth
- 3.1.2 llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill

3.2 Gwella ansawdd
- 3.2.1 hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill
- 3.2.2 cynllunio a sicrhau gwelliant

3.3 Gweithio mewn partneriaeth
- 3.3.1 partneriaethau strategol
- 3.3.2 cynllunio, darparu arnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

3.4 Rheoli adnoddau
- 3.4.1 rheoli staff ac adnoddau
- 3.4.2 gwerth am arian

**Adroddiadau ar feysydd dysgu**

## Adran cyd-destun cam dau

Bydd adran cyd-destun yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gryno am y coleg. Fel arfer, bydd yr adran hon yn cael ei chytuno â'r coleg. Pan fydd anghytuno ynglŷn â chynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Gall yr adran hon gynnwys gwybodaeth gryno am:

- nifer a natur y dysgwyr
- lleoliad safleoedd y coleg
- nodweddion yr ardal y mae'r coleg yn ei gwasanaethu
- unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad blaenorol
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

## Crynodeb cam dau

Bydd y crynodeb yn cynnwys y ddwy farn gyffredinol ar berfformiad presennol y coleg a'i ragolygon gwella. Bydd esboniad byr o'r rhesymau dros y barnau hyn. Bydd y crynodeb yn gyson â'r testun yng nghorff yr adroddiad a'r adborth llafar a roddwyd i'r coleg. Bydd y datganiadau ategol ar gyfer y ddwy brif farn yn esbonio'n fras, mewn dwy neu dair brawddeg, pam y lluniwyd y barnau.

## Barn gyffredinol ar berfformiad presennol y coleg

Bydd y farn gyffredinol wedi ei seilio ar farnau a luniwyd ar y tri chwestiwn allweddol. Dylid rhoi'r pwys mwyaf ar y farn ar Gwestiwn Allweddol 1.

Fel arfer, ni ddylai'r farn gyffredinol fod yn uwch na'r farn isaf a ddyfarnwyd i unrhyw gwestiwn allweddol. Gall y farn gyffredinol fod un lefel yn uwch na'r lefel isaf a ddyfarnwyd i unrhyw gwestiwn allweddol, ond rhaid esbonio'r rhesymau dros yr eithriad hwn yn glir ac yn llawn yn yr adroddiad. Yn ystod y broses o gymedroli barnau'r arolygiad, caiff y cyfryw eithriadau eu hystyried yn ofalus.

## Barn gyffredinol ar ragolygon gwella'r coleg

Mae'r ail farn gyffredinol yn cynrychioli hyder yr arolygwyr yng ngallu'r coleg i fynd ati i wella ei hun yn y dyfodol. Wrth lunio barn ar y rhagolygon gwella, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae gan arweinwyr a rheolwyr:

- y cynhwysedd a'r gallu i wneud gwelliannau a rhoi cynlluniau ar waith
- hanes llwyddiannus o reoli newid, mynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol a sicrhau gwelliannau
- blaenoriaethau clir a thargedau heriol ar gyfer gwella
- cynlluniau cydlynus ac ymarferol i fodloni targedau
- adnoddau i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd
- systemau priodol i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a chymryd camau effeithiol i'w cywiro

Fel arfer, dylai fod cysylltiad agos rhwng y farn ar ragolygon gwella a'r barnau cyffredinol ar y dangosyddion perfformiad ar gyfer arweinyddiaeth a/neu wella ansawdd, neu agweddau arwyddocaol o fewn y dangosyddion ansawdd hynny sy'n ategu'r farn gyffredinol.

## Argymhellion

Bydd yr argymhellion yn rhoi syniad clir a phenodol i'r coleg o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddo fynd i'r afael â nhw yn ei gynllun gweithredu. Bydd arolygwyr yn ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn eu blaenoriaeth a, lle bo angen codi safonau cyflawniad neu gyrhaeddiad, dyma fydd y brif flaenoriaeth. Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif farnau a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall y coleg weithredu arni. Rhaid i arolygwyr gyfeirio at unrhyw faterion arwyddocaol a nodwyd yn yr adroddiad lle nad yw arfer y coleg yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

## Barnu cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd cam dau

Yng ngham dau, bydd y tîm arolygu'n arolygu'r coleg cyfan yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Bydd arolygwyr yn ystyried deilliannau arolygu'r meysydd dysgu a arolygwyd yng ngham un. Yn ogystal, byddant yn ystyried tystiolaeth o bob maes dysgu a phob un o safleoedd y coleg.

Fel arfer, ni all y farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 fod yn uwch na digonol pan fydd data ar ddeilliannau cwblhau a deilliannau cyrhaeddiad yn dangos tueddiadau dros dair blynedd ar lefelau is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol, gan ystyried cyd-destun y coleg.

Mae cysylltiad cryf rhwng deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Os yw arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n effeithiol, yna dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y ddarpariaeth ac yn y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Felly, fel arfer, ni fydd y farn ar gyfer Cwestiynau Allweddol 2 a 3 ar lefel uwch na'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond gall fod yn is. Pan fydd gwahaniaethau rhwng y barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, a Chwestiynau Allweddol 2 a 3, dylid esbonio'r rhain yn nhestun yr adroddiad.

Fel arfer, dylai'r farn gyffredinol ar y cwestiwn allweddol adlewyrchu'r barnau a roddwyd i ddangosyddion ansawdd yn y cwestiwn allweddol, ac ni ddylai fod yn fwy nag un lefel yn uwch na'r lefel isaf a ddyfarnwyd ar gyfer unrhyw ddangosydd ansawdd.

Fel arfer, ni ddylai'r farn ar reoli adnoddau fel dangosydd ansawdd fod yn uwch ar y raddfa na'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond gall fod yn is.

## Disgrifiadau barn – cam un a cham dau

Mae'r disgrifiadau canlynol wedi eu bwriadu i fod yn arweiniad i helpu arolygwyr i lunio barnau trwy ystyried cydbwysedd ac arwyddocâd cymharol cryfderau a meysydd i'w gwella.

Bydd angen i arolygwyr wirio pa un o'r disgrifiadau barn sydd fwyaf addas ar gyfer unrhyw ddangosydd ansawdd a chwestiwn allweddol y mae'n rhaid llunio barn ar y raddfa pedwar pwynt ar eu cyfer.

**Rhagorol** – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector

**Da** – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol

**Digonol** – Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella

**Anfoddhaol** – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

## Dangosyddion ansawdd – cam un

Mae'r 10 dangosydd ansawdd a ddefnyddir yng ngham un wedi eu hamlinellu isod o dan y tri chwestiwn allweddol.  Ar gyfer pob dangosydd ansawdd, mae ystod o agweddau.  Mae arweiniad ar sut i arolygu pob dangosydd ansawdd wedi ei amlinellu o dan bob cwestiwn allweddol.

Mae paragraffau enghreifftiol ar gyfer pob barn dda ac anfoddhaol yn esbonio pob dangosydd ansawdd.  Mae'r egwyddorion ym mhob paragraff enghreifftiol yn berthnasol i gam un a cham dau yr arolygiad.  Ni ddylid defnyddio'r paragraffau hyn fel rhestrau gwirio crai, ond fel cyfeiriad i gefnogi'r broses o lunio barn.  Dylid eu defnyddio ar y cyd â'r disgrifiadau barn.  Dylai arolygwyr bwyso a mesur y dystiolaeth a phennu barnau ar sail yr hyn sy'n cydweddu orau â'r disgrifiadau barn.

### Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau?

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, dylai arolygwyr roi'r pwys mwyaf ar farnau am safonau.

### 1.1 Safonau

- **Canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol**
- **Safonau grwpiau gwahanol o ddysgwyr**
- **Cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu**
- **Medrau**
- **Yr iaith Gymraeg**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd yng ngham un**

Dylai arolygwyr bob amser ystyried yn ofalus a yw'r farn ar gwestiwn allweddol y maes dysgu yn gyson â'r data sydd ar gael ai peidio.  Pan na fydd gwybodaeth am ddata yn cael ei hadlewyrchu ym marnau'r arolygwyr yn y cwestiwn allweddol hwn, dylai'r adroddiad esbonio'n glir pam.

Dylai'r adroddiad ganolbwyntio ar y prif farnau am safonau sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddata'r maes dysgu. Dylai hyn ymwneud yn bennaf â pha mor dda y mae'r maes dysgu yn ei wneud, at ei gilydd, a'r duedd gyffredinol yn ei berfformiad, yn enwedig mewn perthynas â meincnodau lleol a chenedlaethol ac mewn perthynas â grwpiau penodol o ddysgwyr. Ni ddylai arolygwyr ddyrannu mwy na thraean o'r adran ar safonau i sylwadau ar berfformiad y maes dysgu mewn perthynas â data.

**Canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol yng ngham un**

Wrth lunio barn ar lefel cwestiwn allweddol yng ngham un, dylai arolygwyr ystyried ystod o ddata ar berfformiad dysgwyr. Bydd arolygwyr yn rhoi'r pwys mwyaf ar brif gymwysterau a chyrsiau sylweddol (fel arfer, y cyrsiau hynny sydd â 150 o oriau dysgu dan arweiniad neu fwy). Bydd arolygwyr yn ystyried nifer y dysgwyr sydd wedi eu hymrestru ar gyrsiau mewn meysydd sector pwnc neu feysydd dysgu.

Wrth edrych ar wybodaeth am berfformiad dysgwyr, bydd arolygwyr yn dadansoddi data cyhoeddedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys data meincnodi, lle bo hynny'n briodol. Byddant yn dadansoddi data mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn gweld pa mor dda y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau a'u dyfarniadau. Bydd arolygwyr yn edrych ar ddeilliannau data dros dair blynedd er mwyn nodi tueddiadau mewn perfformiad. Byddant hefyd yn ystyried unrhyw wybodaeth sydd ar gael am ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn a pha gyfran o ddysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch neu ragoriaeth.

Dylai arolygwyr llythrennedd a rhifedd ystyried yr holl ddata ar asesiadau cychwynnol a diagnostig, a chymwysterau penodol llythrennedd a rhifedd o lefel cyn-mynediad i TGAU. Bydd hyn yn cynnwys y rhai sy'n rhan o gymwysterau eraill, fel Bagloriaeth Cymru a Rhaglenni Dysgu.

Mae Atodiad 6 yn rhoi arweiniad manylach ar ddefnyddio data wrth arolygu cam un a cham dau.

**Safonau grwpiau o ddysgwyr yng ngham un**

Bydd arolygwyr yn edrych ar berfformiad dysgwyr ar lefelau gwahanol a mathau gwahanol o gyrsiau ar lefel meysydd dysgu. Byddant yn ystyried cefndiroedd grwpiau gwahanol o ddysgwyr a'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Gall arolygwyr edrych ar berfformiad cymharol grwpiau gwahanol o ddysgwyr, gan gynnwys:

- dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais
- dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- dysgwyr o grwpiau ethnig gwahanol
- dysgwyr gwrywaidd a benywaidd

**Cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu yng ngham un**

Dylai arfarniad arolygwyr o gyflawniad dysgwyr gael ei seilio ar dystiolaeth o arsylwi gwersi, teithiau dysgu, trafodaethau â dysgwyr, a chraffu ar waith ysgrifenedig ac

ymarferol. Dylent arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn galw i gof dysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd ac yn cymhwyso'r rhain i'w dysgu.

Dylai arolygwyr arfarnu safon eu gwaith llafar, ysgrifenedig ac ymarferol ac i ba raddau y mae'n bodloni safonau'r cyrff dyfarnu perthnasol.

Ym mhob maes perthnasol, dylent gymryd gofal arbennig i farnu lefel gwybodaeth a medrau yn gysylltiedig â galwedigaeth y mae dysgwyr wedi eu caffael trwy eu haddysgu a'u hyfforddiant. Bydd angen i arolygwyr ystyried cynlluniau dysgu unigolion.

**Medrau yng ngham un**

Wrth edrych ar fedrau, dylai ffocws holl waith arolygwyr meysydd dysgu fod ar safonau a chynnydd dysgwyr mewn llythrennedd (cyfathrebu), rhifedd (cymhwyso rhif) a llythrennedd digidol. Dylent arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu medrau ar sail unigol o'u mannau cychwyn unigol.

Dylai arolygwyr fod yn ofalus wrth lunio barnau am ennill cymwysterau a chredydau sydd islaw lefel gallu'r dysgwyr, neu islaw lefel cymwysterau llythrennedd a rhifedd y maent yn meddu arnynt eisoes.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae canlyniadau asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig yn llywio targedau a nodau dysgwyr unigol. Dylent farnu pa mor dda y mae'r targedau a'r nodau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau dysgu unigol, a pha mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio eu cynlluniau dysgu unigol i olrhain eu cynnydd eu hunain a llywio targedau yn y dyfodol.

Dylai dysgwyr sy'n cael cymorth gyda llythrennedd a rhifedd a dysgwyr nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt fod yn ffocws penodol i'r arolygwyr. Hefyd, bydd angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn cymhwyso eu medrau mewn meysydd dysgu eraill ac yn eu cyrsiau prif ffrwd.

Dylai arolygwyr llythrennedd a rhifedd gyflawni pob un o'r uchod mewn meysydd dysgu nad ydynt yn rhan o'r rhai a ddewiswyd ar gyfer yr arolygiad cam un.

**Yr iaith Gymraeg yng ngham un**

Wrth lunio barn gyffredinol ar fedrau dysgwyr yn yr iaith Gymraeg ar lefel meysydd dysgu, dylai arolygwyr ystyried beth mae'n rhesymol ei ddisgwyl, o ystyried cefndir ieithyddol a chyd-destun y coleg y maent yn ei arolygu, a'r ardal y mae'n ei gwasanaethau cyn llunio barn gorfforaethol ar safonau Cymraeg. Bydd arolygwyr yn adrodd ar safonau Cymraeg, lle bo hynny'n briodol.

Dylent ystyried:

- mannau cychwyn y dysgwyr a'r cynnydd y maent yn ei wneud mewn perthynas â hyn
- i ba raddau y gall dysgwyr ddeall a defnyddio iaith a therminoleg bynciol/alwedigaethol
- cynnydd dysgwyr o ran nodau a pholisi'r coleg a'i Gynllun Iaith Gymraeg

Dylai arolygwyr roi sylwadau ar gyfran y dysgwyr sy'n ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob maes dysgu, lle bo hynny'n briodol.

**Safonau da yng ngham un**

Mae perfformiad ar draws yr ystod o gyrsiau yn y maes dysgu (yn enwedig cyrsiau sylweddol a'r cyrsiau sydd â mwy o ymrestriadau), yn dangos llawer o gryfderau ac nid oes unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella, at ei gilydd.

Mae gan y rhan fwyaf o gyrsiau (yn enwedig y cyrsiau sylweddol a'r rhai sydd â mwy o ymrestriadau) gyfraddau llwyddo a thueddiadau sydd o gwmpas neu uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ychydig iawn o gyrsiau sydd â chyfraddau llwyddo sy'n neilltuol is na'r cymaryddion cenedlaethol.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt ac yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir ganddynt, o leiaf, mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae dysgwyr yn dangos cynnydd gwell na'r disgwyl mewn llythrennedd a rhifedd, o ystyried eu mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau Cymraeg sy'n briodol i'w gallu a'u dysgu blaenorol.

**Safonau anfoddhaol yng ngham un**

Mae perfformiad ar draws yr ystod o gyrsiau yn y maes dysgu (yn enwedig cyrsiau sylweddol a'r cyrsiau sydd â nifer fwy o ymrestriadau) yn dangos bod meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, at ei gilydd.

Mae gan fwyafrif y cyrsiau (yn enwedig cyrsiau sylweddol a'r cyrsiau sydd â nifer fwy o ymrestriadau) gyfraddau llwyddo sydd islaw'r cymaryddion cenedlaethol, ac nid yw'r tueddiadau'n dangos unrhyw welliant neu maent yn dangos perfformiad sy'n dirywio.

Nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir ganddynt mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol. Nid yw nifer sylweddol o ddysgwyr yn ymgymryd yn llawn mewn gwersi.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn dangos cynnydd gwaeth na'r disgwyl mewn llythrennedd a rhifedd, o ystyried eu mannau cychwyn.

At ei gilydd, nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud llawer o gynnydd, os o gwbl, o ran gwella eu medrau Cymraeg mewn perthynas â'u dysgu blaenorol.

## 1.2 Lles

- **Agweddau at gadw’n iach a diogel**
- **Cyfranogi mewn dysgu a’i fwynhau**
- **Ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau**
- **Medrau cymdeithasol a medrau bywyd**

**Materion wrth arolygu’r dangosydd ansawdd yng ngham un**

Mae’r ffocws yn y cwestiwn allweddol hwn ar ddeilliannau yn hytrach na darpariaeth. Dylai cwestiynau allweddol eraill, yn enwedig Cwestiwn Allweddol 2, ymdrin â gwaith y maes dysgu o ran hyrwyddo lles dysgwyr.

Dylai arolygwyr geisio barnu, cyhyd ag y bo’n bosibl, y materion hynny y mae gan y maes dysgu rywfaint o ddylanwad arnynt. Dylent geisio gwneud yn siŵr fod ymholiadau’n canolbwyntio ar effaith gwaith y maes dysgu yn y maes hwn. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth o unrhyw arolygon perthnasol o farn dysgwyr.

**Datblygu agweddau at gadw’n iach a diogel yng ngham un**

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn y maes dysgu yn teimlo’n ddiogel rhag unrhyw fath o gam-drin corfforol a geiriol, naill ai yn y coleg neu yn eu gweithle. Dylai arolygiad ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag peryglon ffisegol neu amgylcheddol. Dylent arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn teimlo y gallant fanteisio’n briodol ar ddewisiadau bwyta’n iach.

**Cyfranogi mewn dysgu a’i fwynhau yng ngham un**

Wrth arfarnu cyfranogi mewn dysgu a’i fwynhau, dylai arolygwyr ystyried presenoldeb, ymddygiad ac agweddau, ac i ba raddau y gall dysgwyr fynegi eu barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut.

Dylent ystyried cyfraddau presenoldeb ar fathau o lefelau gwahanol o gyrsiau yn y maes dysgu.

Wrth arfarnu ymddygiad ac agweddau, dylai arolygwyr arfarnu sut mae dysgwyr yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac yn dangos agwedd gadarnhaol at eu hastudiaethau a’u gwaith. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried agweddau ac ymddygiad dysgwyr, yn enwedig lefel y brwdfrydedd a ddangosant tuag at eu cyfleoedd dysgu eu hunain, eu gallu i ganolbwyntio a pha mor dda y maent yn ymgymryd â thasgau.

Wrth arfarnu cyfraniad dysgwyr at yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut, dylai arolygwyr ystyried:

- a yw barn dysgwyr am yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut yn cael ei chymryd o ddifrif
- sut mae dysgwyr yn trafod y testunau y rhoddir sylw iddynt, ac yn helpu i gynllunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau
- a yw dysgwyr yn gwneud dewisiadau ynghylch yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut

**Ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau yng ngham un**

Dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae dysgwyr yn cyfrannu at gymuned y maes dysgu trwy gyfranogi yn yr undeb myfyrwyr a chyrff cynrychioliadol eraill, fel cynrychiolwyr dosbarth ac aelodaeth myfyrwyr ar fwrdd y llywodraethwyr. Dylent ystyried y ffyrdd y mae dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau yn y gymuned, er enghraifft fel rhan o Fagloriaeth Cymru.

**Medrau cymdeithasol a medrau bywyd yng ngham un**

Wrth arfarnu medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos parch, gofal a phryder at eraill, ac a ydynt yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u gwaith. Yn ogystal, dylent arfarnu a yw dysgwyr yn mwynhau dysgu ac yn cyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd coleg. Dylai arolygwyr ystyried y modd y mae dysgwyr yn datblygu medrau cyflogadwyedd a dinasyddiaeth, yn enwedig ar gyrsiau sydd wedi eu llunio i'w paratoi ar gyfer bywyd a gwaith. Hefyd, dylent ystyried y modd y mae dysgwyr yn datblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i wella a symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

**Lefelau lles da yng ngham un**

Mae dysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch bod yn iach ac yn ddiogel yn y coleg, yn eu gweithle ac mewn lleoliadau cymunedol. Maent yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyfranogi'n dda mewn gwersi ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn cyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu rhinweddau personol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, eu hathrawon a'u hyfforddwyr. Gwnânt gyfraniadau da at gymuned eu coleg ac maent yn datblygu eu gallu ar gyfer lles economaidd a chymdeithasol. Maent yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain a chanlyniadau'r gweithredoedd hynny. Maent yn mwynhau dysgu ac yn dod yn feddylwyr annibynnol â barnau cytbwys.

**Lefelau lles anfoddhaol yng ngham un**

Nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd digonol yn eu datblygiad personol. Mae ychydig o ddysgwyr mewn perygl oherwydd nad oes ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at iechyd a diogelwch yn y coleg nac yn eu gweithle. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, eu hathrawon a'u hyfforddwyr, nid ydynt yn mynychu'n rheolaidd ac maent yn hwyr yn gyson. Yn aml, nid yw dysgwyr yn cyfranogi'n llawn mewn gwersi a sesiynau hyfforddi, ac maent yn chwarae rhan gyfyngedig iawn ym mywyd y coleg. Dim ond cynnydd araf y mae llawer o ddysgwyr yn ei wneud yn eu gallu i wella eu lles economaidd a chymdeithasol.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Cam un

Yng ngham un, bydd arolygwyr yn llunio barn ar sail y cwestiwn allweddol yn ei gyfanrwydd. Byddant yn rhoi mwy o bwysoliad i'r arfarniad o 2.2 addysgu.

### 2.1 Profiadau dysgu

- **Bodloni anghenion dysgwr, cyflogwyr/y gymuned**
- **Darpariaeth ar gyfer medrau**
- **Darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig**
- **Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**Bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach yng ngham un**

Wrth arfarnu i ba raddau y mae'r coleg yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr, dylai arolygwyr ystyried y cyd-destun y mae'r coleg yn gweithio ynddo. Bydd hyn yn ymwneud â darpariaeth addysg a hyfforddiant yn yr ardal leol, y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, a natur cyfleoedd cyflogaeth ac anghenion y gymuned. Hefyd, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor gryf y mae'r cysylltiadau rhwng y maes dysgu a chyflogwyr.

Mewn meysydd dysgu galwedigaethol, dylai arolygwyr ystyried ystod a phriodoldeb y prif gymwysterau a'r cymwysterau ychwanegol sy'n cael eu cynnig. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r rhain yn datblygu medrau cyflogadwyedd trosglwyddadwy. Dylent archwilio ystod y cyfleoedd dilyniant sydd ar gael yn y coleg ac mewn mannau eraill. Dylai arolygwyr ystyried a yw pob un o'r uchod yn adlewyrchu'r anghenion medrau yn yr economi leol.

Dylai arolygwyr ystyried graddau a phriodoldeb trefniadau i ddysgwyr ymgymryd â phrofiad gwaith digonol, perthnasol ac o ansawdd uchel. Dylent ystyried a yw'r profiadau dysgu hyn yn datblygu medrau galwedigaethol a chyflogadwyedd dysgwyr yn ddigon da.

Mewn addysg gyffredinol, dylai arolygwyr meysydd dysgu ystyried a yw ystod y pynciau sy'n cael eu cynnig yn darparu llwybrau dilyniant addas i ddysgwyr i addysg bellach ac addysg uwch, yn ogystal â chyflogaeth a hyfforddiant.

**Darpariaeth ar gyfer medrau yng ngham un**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r maes dysgu yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd (cyfathrebu), rhifedd (cymhwyso rhif) a TGCh ar draws y cwricwlwm ac oddi mewn iddo, ac yn cyflawni hyn.

Dylent arfarnu pa mor dda y mae athrawon a rheolwyr meysydd dysgu:

- yn defnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig

- yn achub ar gyfleoedd i ddatblygu medrau allweddol mewn sesiynau prif gyrsiau
- yn rhoi medrau hanfodol yn eu cyd-destun ym mhrif gyrsiau neu feysydd diddordeb dysgwyr

Dylai arolygwyr graffu ar sampl o gynlluniau gwaith i farnu pa mor dda y mae staff wedi cynllunio ar gyfer medrau yn eu cyd-destun. Dylent asesu pa mor dda y mae athrawon yn cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr unigol.

Dylent asesu adroddiad hunanasesu a chynllun datblygu ansawdd y maes dysgu i arfarnu'r ymrwymiad i fedrau hanfodol, a dylent siarad ag athrawon i ddarganfod pa mor gyfarwyddyd ydynt â pholisi medrau'r coleg.

Dylent arfarnu effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer datblygu medrau hanfodol dysgwyr. Gall y rhain gynnwys:

- datblygiad ymgorfforedig medrau trwy ddosbarthiadau prif gyrsiau pan fydd medrau'n cael eu haddysgu gan athrawon galwedigaethol, athrawon medrau hanfodol arbenigol neu drwy addysgu wedi ei gyplu neu ei rannu o fewn dosbarthiadau prif gyrsiau dysgwyr
- datblygu medrau a roddir yn eu cyd-destun ym mhrif gwrs neu faes diddordeb dysgwyr yn cael eu haddysgu fel dosbarth ar wahân, naill ai gan athro arbenigol neu athro galwedigaethol
- dosbarthiadau medrau hanfodol ar wahân yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr medrau hanfodol

Dylai arolygwyr llythrennedd a rhifedd asesu pa mor dda y mae'r meysydd dysgu a'r coleg yn monitro ac yn arfarnu data llythrennedd a rhifedd ac yn defnyddio'r data i gynllunio ar gyfer gwella. Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae meysydd dysgu'n cynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylent ddod o hyd i ganran y dysgwyr sydd wedi cwblhau asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig ac arfarnu a ydynt yn cael y cymorth cywir.

**Darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yng ngham un**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r maes dysgu yn bodloni anghenion dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ogystal ag ymestyn medrau Cymraeg dysgwyr nad ydynt wedi astudio llawer o Gymraeg.

Dylai arolygwyr ystyried natur a math y cwrs sy'n cael ei ddilyn wrth arfarnu effeithiolrwydd yr addysgu yn y maes dysgu o ran datblygu medrau Cymraeg. Dylent ystyried gofynion ieithyddol cyfleoedd cyflogaeth lleol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r cyrsiau'n datblygu dealltwriaeth dysgwyr ac yn defnyddio iaith a therminoleg alwedigaethol.

**Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yng ngham un**

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymestyn eu gwybodaeth am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF), er enghraifft trwy Fagloriaeth Cymru.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau:

- y mae’r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, medrau a gwerthoedd ADCDF
- y mae’r meysydd dysgu a’r coleg yn cyfrannu at ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft trwy ddatblygu dealltwriaeth o’r byd ehangach a gwerthfawrogiad o amrywiaeth fyd-eang

**Profiadau dysgu da yng ngham un**

Mae’r maes dysgu yn darparu ystod dda o gyrsiau a chyfleoedd hyfforddiant ar lefelau sy’n briodol i anghenion dysgwyr yn yr ardal. Gall bron pob un o’r dysgwyr ddilyn cyrsiau sy’n cyfateb i’w dewisiadau a’u hanghenion. Mae’r maes dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a gofynion allanol eraill, ac mae’n defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda. Mae ystod dda o weithgareddau profiad gwaith ar gael i bob dysgwr. Mae gan y maes dysgu gynlluniau cydlynus ar gyfer datblygu medrau dysgwyr. Mae’r rhain yn effeithiol o ran gwella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr o bob gallu. Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfleoedd da i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy, yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth am Gymru a’r iaith Gymraeg.

**Profiadau dysgu anfoddhaol yng ngham un**

Nid yw’r maes dysgu yn dadansoddi anghenion dysgwyr a chyflogwyr fel mater o drefn ac, o ganlyniad, ceir cyfatebiaeth anfoddhaol rhwng yr anghenion hyn ac ystod a lefel y cyrsiau a ddarperir gan y coleg. Mae trefniadau’r maes dysgu ar gyfer gwella llythrennedd, rhifedd a medrau TGCh dysgwyr yn gyfyngedig ac nid ydynt yn gydlynus. Nid yw’r maes dysgu yn darparu digon o brofiad gwaith perthnasol i ddysgwyr. Nid yw’r maes dysgu yn gwneud digon i ymestyn gwybodaeth dysgwyr am ddinasyddiaeth fyd-eang, datblygiad cynaliadwy, yn ogystal â gwybodaeth dysgwyr am Gymru a’r iaith Gymraeg.

## 2.2 Addysgu neu hyfforddi

- **Ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi**
- **Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu**

**Materion wrth arolygu’r dangosydd ansawdd**

Dylai’r ffocws fod ar effaith addysgu/hyfforddi ar ddysgu ac nid ar ddefnyddio dull penodol ar wahân i’w effaith.

**Ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi yng ngham un**

Bydd arolygwyr yn arfarnu effeithiolrwydd strategaethau addysgu a hyfforddi, ond ni fyddant yn rhagnodol ynglŷn â dulliau addysgu.

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae athrawon a hyfforddwyr:

- yn defnyddio gwybodaeth bynciol a thechnegol gyfredol

- yn disgwyl llawer gan bob dysgwr
- yn cynllunio'n effeithiol ac yn meddu ar amcanion clir ar gyfer profiadau dysgu
- yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu hysgogi a'u herio
- yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd
- yn fodelau iaith da eu hunain
- yn sefydlu perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu
- yn defnyddio staff technegol a staff cymorth dysgu yn effeithiol
- yn effeithiol o ran darparu gwaith ymestynnol i fodloni anghenion pob dysgwyr, beth bynnag fo'i (g)allu

Bydd arolygwyr yn arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn y gwaith yn cael eu hyfforddi yn y gwaith, yn ogystal â mewn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, lle bo hynny'n berthnasol.

**Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu yng ngham un**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r meysydd dysgu ac athrawon yn olrhain ac yn cadw cofnodion o gynnydd pob dysgwr, ac yn adrodd ar y rhain yn glir ac yn ddefnyddiol i rieni a chyflogwyr, lle bo hynny'n briodol.

Dylai arolygwyr arfarnu a yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cymryd rhan mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain. Dylent arfarnu:

- pa mor dda y mae adborth llafar a marcio yn galluogi dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella
- priodoldeb asesu ffurfiannol ac asesu crynodol, a'i ddefnydd wrth gynllunio a gwella dysgu
- pa mor dda y mae dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn asesu eu cynnydd a'u cyflawniadau eu hunain, a pha mor dda y maent yn deall sut i wella.

**Addysgu/hyfforddi da yng ngham un**

Mae'r rhan fwyaf o addysgu'n sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cymell a'u cynnwys ac yn sicrhau cynnydd da dysgwyr mewn dysgu. Mae addysgu a hyfforddiant yn darparu her briodol i ddysgwyr o bob gallu sy'n bodloni eu hanghenion gwahanol. Mae athrawon a hyfforddwyr yn defnyddio gwybodaeth bynciol a thechnegol gyfredol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a hyfforddwyr yn defnyddio adnoddau dysgu'n dda i ennyn diddordeb dysgwyr. Maent yn gwneud defnydd da o wybodaeth o asesiadau dysgwyr i osod targedau heriol i wella gwybodaeth, medrau a deilliannau dysgwyr. Maent yn cadw cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau dysgwyr ac yn rhoi adborth da ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith. Maent yn darparu adroddiadau rheolaidd a defnyddiol i gyflogwyr a rhieni ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr.

**Addysgu/hyfforddi anfoddhaol yng ngham un**

Nid yw addysgu a hyfforddiant yn cael effaith ddigon da ar ddysgu, oherwydd nid

ydynt yn herio nac yn diddori llawer o'r dysgwyr. Mae gan leiafrif sylweddol o athrawon a hyfforddwyr wybodaeth bynciol neu dechnegol annigonol ar gyfer lefel y cwrs. Nid yw llawer o'r athrawon a'r hyfforddwyr yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau addysgu a dysgu. Yn aml, nid yw athrawon a hyfforddwyr yn cynllunio asesu'n ddigon da, ac nid ydynt yn rhoi digon o adborth i ddysgwyr ar sut i wella safon eu gwaith. Mae llawer o athrawon a hyfforddwyr yn cadw cofnodion gwael o asesiadau. Nid yw llawer o gyflogwyr a rhieni'n cael digon o wybodaeth am gynnydd a deilliannau dysgwyr.

## 2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad

- **Darpariaeth ar gyfer iechyd a lles**
- **Gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol**
- **Trefniadau diogelu**
- **Anghenion dysgu ychwanegol**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Dylai'r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith gofal, cymorth ac arweiniad ar safonau a lles dysgwyr, yn hytrach nag ar y gweithdrefnau a'r trefniadau. Yn benodol, dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r trefniadau'n cael effaith fuddiol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Wrth arfarnu gofal, cymorth ac arweiniad, dylai arolygwyr ystyried barnau'r tîm ar safonau a lles.

**Darpariaeth ar gyfer iechyd a lles yng ngham un**

At ei gilydd, dylai arolygwyr arfarnu trefniadau'r maes dysgu ar gyfer hyrwyddo lles. Gall hyn gynnwys arweiniad a chymorth arall i ddiogelu lles dysgwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol.

Dylai arolygwyr adrodd ar achosion amlwg o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch o dan y dangosydd ansawdd hwn.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r maes dysgu yn cadw at drefniadau'r coleg ar gyfer ymdrin ag aflonyddu a bwlio. Dylent wneud yn siwr fod dysgwyr yn gwybod pwy i fynd atynt os oes ganddynt bryderon a pha mor dda y caiff digwyddiadau eu cofnodi a pha mor dda yr eir i'r afael â nhw.

Dylai arolygwyr farnu beth mae'r maes dysgu yn ei wneud i hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb da.

**Gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol yng ngham un**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r maes dysgu yn cysylltu â gwasanaethau eraill y coleg i sicrhau y caiff dysgwyr gyngor ac arweiniad priodol a diduedd ym mhob cam o'u dysgu.

**Trefniadau diogelu yng ngham un**

Dylai trefniadau diogelu'r coleg sicrhau bod recriwtio diogel a bod yr holl ddysgwyr yn cael eu hamddiffyn. Dylai trefniadau gynnwys adnabod dysgwyr sy'n agored i niwed

sydd mewn angen neu sy'n wynebu risg o niwed sylweddol trwy gynnal cofnod o addasrwydd staff a gwirfoddolwyr a thrwy gael trefniadau priodol ar gyfer amddiffyn dysgwyr sy'n agored i niwed. Hefyd, dylai gynnwys pa mor dda y mae'r darparwr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r coleg yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i bob darparwr gydymffurfio â gofynion fel y cânt eu hamlinellu yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r maes hwn (gweler Atodiad 3).

Bydd angen i arolygwyr ganfod a yw trefniadau'r coleg yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn destun pryder.

**Anghenion dysgu ychwanegol yng ngham un**

Mae'r term ADY yn berthnasol i ddysgwyr o bob oedran y mae eu hanghenion dysgu yn ychwanegol at y mwyafrif o'u cyfoedion.

Gweler Atodiad 5 am ragor o arweiniad.

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae'r maes dysgu yn rhoi polisi'r coleg ar waith i fodloni anghenion unrhyw gategori o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau cymorth ychwanegol yn ogystal â threfniadau priodol ar gyfer dysgwyr y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt â medrau sylfaenol, er mwyn bodloni gofynion nod eu prif gymhwyster.

**Gofal, cymorth ac arweiniad da yng ngham un**

Mae rhaglenni ymsefydlu wedi eu teilwra'n dda ac yn darparu cyflwyniad da i ddysgwyr i'r maes dysgu a'r coleg. Mae tiwtorialau'n bwrpasol ac yn darparu cyfleoedd da i ddysgwyr adolygu a myfyrio ar eu dysgu. Caiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda ac mae gan y maes dysgu arferion cadarn mewn rhoi gweithdrefnau'r coleg ar waith ar gyfer ymdrin â bwlio ac aflonyddu.

Mae'r maes dysgu yn sicrhau y caiff dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gymorth da ac y gallant fanteisio'n llawn ar bob rhan o'r cwricwlwm. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch pob dysgwr yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad anfoddhaol yng ngham un**

Nid oes strwythur cadarn i raglenni ymsefydlu. Maent yn rhy fyr ac nid ydynt yn rhoi cyflwyniad digonol i ddysgwyr i'r maes dysgu a'r coleg. Nid yw tiwtorialau'n bwrpasol ac ni chaiff dysgwyr lawer o gyfle i adolygu a myfyrio ar eu dysgu. Nid yw'r maes dysgu yn rhoi gweithdrefnau'r coleg i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu ar waith yn llawn.

Mae'r maes dysgu yn gwneud trefniadau annigonol i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch pob dysgwr yn aneffeithiol.

## 2.4 Yr amgylchedd dysgu

- **ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth**
- **amgylchedd ffisegol**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**Ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngham un**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r maes dysgu:

- yn sefydlu ethos cynhwysol
- yn herio pob math o wahaniaethu neu anghydraddoldeb ar gyfer pob grŵp a allai ddioddef diffyg cyfleoedd teg ar gyfer dysgu a/neu gyflogaeth
- yn cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac yn herio ystrydebau mewn dewisiadau dysgwyr
- yn datblygu agweddau goddefgar ac yn sicrhau bod pob dysgwr ac aelod staff yn rhydd rhag aflonyddwch
- yn hyrwyddo atal a chael gwared ar ymddygiad gormesol trwy weithredu ei bolisïau a'i weithdrefnau

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn y gwaith yn cael eu diogelu rhag aflonyddwch a gwahaniaethu yn eu gweithleoedd.

Dylent arfarnu a yw'r maes dysgu:

- yn meddu ar bolisi sy'n cael ei ddeall yn dda, sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol
- yn meddu ar gynllun gweithredu sy'n sicrhau y caiff y polisi ei gyflawni
- yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb priodol ar gyfer staff
- yn monitro ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion neu gŵynion cysylltiedig sy'n codi

**Amgylchedd ffisegol yng ngham un**

Dylai arolygwyr farnu:

- a oes digon o adnoddau sy'n gweddu i anghenion dysgwyr
- a yw'r adeiladau'n darparu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cael ei gynnal yn dda i gefnogi dysgu, addysgu a hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith
- a yw'r adeiladau a'r offer arbenigol yn gyfoes
- a yw'r ystafelloedd ym mhob canolfan a ddefnyddir gan y dysgwyr yn ddigonol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda

**Amgylchedd dysgu da yng ngham un**

Mae systemau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro a chael gwared ar bob math o wahaniaethu ac aflonyddu. Mae'r maes dysgu yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n tanategu cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn dda. Mae

ymagwedd dda at gynhwysiant cymdeithasol ac addysgol. Mae bron yr holl adnoddau dysgu a'r adeiladau yn addas i'r diben ac yn gwbl hygyrch.

**Amgylchedd dysgu anfoddhaol yng ngham un**

Mae systemau a gweithdrefnau annigonol ar gyfer monitro gwahaniaethu ac aflonyddu, ac nid oes llawer o gofnodion defnyddiol o achosion o ymddygiad gwahaniaethol. Mae lleiafrif sylweddol o ddysgwyr yn cwyno eu bod yn dioddef bwlio'n aml, ac nid yw'r maes dysgu yn gwneud digon i ddelio â hynny. Nid yw llawer o ddysgwyr yn gyfarwydd ag egwyddorion cyfle cyfartal, yn enwedig yn ymwneud ag arferion yn y gwaith. Mae lleiafrif sylweddol o'r adeiladau mewn cyflwr anfoddhaol, ac nid ydynt yn addas i'r diben y cânt eu defnyddio ar ei gyfer. Nid oes adnoddau dysgu digon da yn y lleiafrif sylweddol o ystafelloedd addysgu ym mhob un o'r lleoliadau. Nid oes cyflenwad boddhaol na digonol o gyfrifiaduron yn y ganolfan adnoddau dysgu ychwaith.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Wrth lunio arfarniad ar gyfer arweinyddiaeth, dylai arolygwyr roi pwys cyfartal ar bob dangosydd ansawdd. Dylai arolygwyr ddarparu tystiolaeth ategol yn erbyn y dangosyddion ansawdd, a byddant yn adrodd mewn adborth i'r darparwr ar arfarniad cryno o gryfderau allweddol a meysydd i'w gwella ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn. Caiff y dystiolaeth hon ei dwyn ymlaen i gam 2 i'w hystyried mewn perthynas â barnau ar gyfer arweinyddiaeth i'r darparwr cyfan.

### 3.1 Arweinyddiaeth

- **cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth**
- **llywodraethwyr neu fyrdd goruchwylio eraill**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**Cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth yng ngham un**

Prif gyfrifoldebau'r arweinwyr a'r rheolwyr yn y maes dysgu yw gwneud yn siwr fod pob un o'r dysgwr yn cael safon uchel o addysg a hyfforddiant, ni waeth pa lefel neu raglen ddysgu y maent yn ei dewis. Dylai arolygwyr roi ystyriaeth briodol i'r barnau ar safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, a'u lles, wrth lunio eu harfarniad o arweinyddiaeth a rheolaeth yn y maes dysgu.

Wrth arfarnu effaith arweinyddiaeth a rheolaeth, dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y caiff rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a rheolwyr meysydd dysgu eu diffinio a ph'un a yw llinellau atebolrwydd yn hyfyw ac yn gytbwys ai peidio
- i ba raddau y mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas uniongyrchol â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau penodol
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn rheoli eu hamser eu hunain er mwyn blaenoriaethu gweithgareddau'n briodol
- pa mor effeithiol y caiff cyfarfodydd eu hamserlennu a'u cynnal i wella busnes craidd a pherfformiad dysgwyr

- pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio data i osod amcanion a rheoli perfformiad staff
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn cydweithio â rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo gwaith a chyfeiriad y maes dysgu
- effeithiolrwydd cyfathrebu

Dylent ystyried effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr meysydd dysgu o ran mynd i'r afael â thanberfformiad yn gadarn a gosod targedau i sbarduno gwelliant.

Dylai arolygwyr arfarnu ymatebion y meysydd dysgu i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg.

**Llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill yng ngham un**

Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd ac effaith llywodraethwyr lle mae ganddynt rôl sy'n gysylltiedig â'r maes dysgu.

## 3.2 Gwella ansawdd

- **Hunanarfarnu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill**
- **Cynllunio a sicrhau gwelliant**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Mae hunanasesu cywir a chynhwysfawr wrth wraidd yr holl drefniadau ar gyfer gwella ansawdd. Dylai ffocws hunanasesu fod ar nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau. Mae'n annhebygol y gall ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth fod yn dda os nad oes gan y colegau weithdrefnau hunanasesu effeithiol ar bob lefel.

**Hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill yng ngham un**

Mae hunanasesu cywir a chynhwysfawr wrth wraidd yr holl drefniadau ar gyfer gwella ansawdd. Dylai ffocws hunanasesu fod ar nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau. Mae'n annhebygol y gall ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth fod yn dda os nad oes gan y colegau weithdrefnau hunanasesu effeithiol ar bob lefel.

Dylai arolygwyr:

- arfarnu pa mor dda y mae'r maes dysgu yn defnyddio deilliannau arolygon dysgwyr, cyflogwyr a staff i hunanasesu a chynllunio ar gyfer gwella
- ystyried y ffyrdd y mae'r maes dysgu yn dadansoddi ac yn ymateb i unrhyw bryderon a godir, yn enwedig gan ddysgwyr
- asesu i ba raddau y caiff staff eu cynnwys mewn asesu deilliannau a pherfformiad ar bob lefel
- arfarnu effeithiolrwydd yr hyn y mae'r maes dysgu yn ei wneud i wella profiadau dysgu a deilliannau
- barnu i ba raddau y mae hunanasesu'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o

ansawdd addysgu a dysgu ar bob lefel

- arfarnu pa mor dda y mae'r maes dysgu yn defnyddio data gan ddarparwyr eraill i gymharu deilliannau dysgwyr ar bob lefel trwy weithgareddau meincnodi
- barnu pa mor dda y mae'n cymharu ei berfformiad â pherfformiad darparwyr tebyg mewn gwledydd eraill yn y DU, yn enwedig ar gyfer darpariaeth arbenigol
- barnu pa mor dda y caiff trefniadau'r maes dysgu ar gyfer gwella ansawdd eu hintegreiddio'n agos â threfniadau eraill i wella ansawdd, fel rheoli perfformiad staff
- barnu pa mor dda y caiff hunanasesu ei ymgorffori mewn cynllunio strategol a chynllunio'r cwricwlwm

Ni ddylai arolygwyr ragnodi unrhyw fodel gwella ansawdd penodol.

**Cynllunio a sicrhau gwelliant yng ngham un**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor effeithiol yw'r maes dysgu o ran gwella ansawdd ei holl waith, gan gynnwys gwaith sy'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

Dylent arfarnu pa mor dda:

- y caiff cylchoedd gwella ansawdd eu hintegreiddio â chylchoedd cynllunio eraill
- y mae'r maes dysgu yn blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer gwella trwy ddyrannu adnoddau a chyfrifoldebau
- y mae'r maes dysgu yn gosod amserlenni penodol a realistig ar gyfer sicrhau gwelliannau
- y mae'r camau a gymerwyd wedi cael effaith gadarnhaol a, lle y bo'n berthnasol, wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried sut mae'r maes dysgu wedi ymateb i argymhellion yr adroddiad arolygu diwethaf, a ph'un a yw'r camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd ai peidio.

Dylai arolygwyr farnu a yw rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu unigol a choleg cyfan yn glir, ac a yw'r rhain wedi eu seilio ar ddeilliannau arsylwadau a thystiolaeth uniongyrchol arall.  Dylai arolygwyr asesu i ba raddau y caiff y rhain eu blaenoriaethu'n briodol a ph'un a eir i'r afael â nhw'n llawn ai peidio.

## 3.3 Gweithio mewn partneriaeth

- **Partneriaethau strategol**
- **Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor strategol y mae'r maes dysgu yn cydweithio â'i bartneriaid i wella safonau, lles a chyfleoedd dysgwyr.

Dylai'r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith partneriaethau

strategol a phartneriaethau'r maes dysgu ar safonau a lles dysgwyr, ac nid dim ond ar nifer ac ystod y partneriaid neu natur ac ansawdd y trefniadau partneriaeth.

**Partneriaethau strategol yng ngham un**

Gall partneriaid gynnwys:

- meysydd dysgu eraill yn y coleg;
- ysgolion uwchradd yn yr ardal;
- colegau addysg uwch;
- cyflogwyr lleol a chenedlaethol;
- darparwyr eraill dysgu yn y gwaith;
- colegau eraill;
- grwpiau cymunedol a gwirfoddol; ac
- awdurdodau lleol yn yr ardal y mae'r coleg yn ei gwasanaethu.

**Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r maes dysgu yn cydweithio â phartneriaid eraill i gynllunio a chyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus sy'n ystyried holl anghenion dysgwyr yn llawn. Dylent farnu effeithiolrwydd cyfraniad y maes dysgu at drefniadau cynllunio a sicrhau ansawdd y bartneriaeth. Bydd y rhain yn cynnwys cyrsiau dysgu yn y gwaith sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd gan y coleg a chyflogwyr.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried effaith y bartneriaeth ar wella deilliannau i ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau sy'n cael eu cyflwyno trwy drefniadau partneriaeth.

## 3.4 Rheoli adnoddau

- **Rheoli staff ac adnoddau**
- **Gwerth am arian**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**Rheoli staff ac adnoddau yng ngham un**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn rheoli cyllid ac adnoddau i helpu i gyflawni deilliannau dysgu
- yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth i fanteisio i'r eithaf ar eu hamser a'u medrau
- yn hyfforddi staff i'w galluogi i fod yn hyblyg wrth fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned
- yn defnyddio gwybodaeth feincnodi i gyfeirio adnoddau i feysydd lle mae eu hangen fwyaf
- yn sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar adnoddau dysgu priodol ym mha le bynnag y byddant yn astudio
- yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn addas i'r diben

**Gwerth am arian yng ngham un**

Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd darpariaeth maes dysgu o ran sicrhau deilliannau priodol i ddysgwyr, ac i ba raddau y mae’n gwneud defnydd da o’r cyllid y mae’n ei gael i gyflwyno addysg a darparu adnoddau ar ei chyfer.

## Dangosyddion ansawdd – cam dau

Mae’r 10 dangosydd ansawdd a ddefnyddir mewn arolygiadau cam dau wedi eu hamlinellu isod o dan y tri chwestiwn allweddol. Ar gyfer pob dangosydd ansawdd, mae ystod o agweddau. Mae arweiniad ar sut i arolygu pob dangosydd ansawdd wedi ei amlinellu o dan bob cwestiwn allweddol.

Mae paragraffau enghreifftiol ar gyfer pob barn dda ac anfoddhaol yn esbonio pob dangosydd ansawdd. Mae’r egwyddorion ym mhob paragraff enghreiftiol yn berthnasol i gam un a cham dau yr arolygiad. Ni ddylid defnyddio’r paragraffau hyn fel rhestrau gwirio crai, ond fel cyfeiriad i gefnogi’r broses o lunio barn. Dylid eu defnyddio ar y cyd â’r disgrifiadau barn. Dylai arolygwyr bwyso a mesur y dystiolaeth a phennu barnau ar sail yr hyn sy’n cydweddu orau â’r disgrifiadau barn.

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?**

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, dylai arolygwyr roi’r pwys mwyaf ar farnau am safonau.

**1.1 Safonau**

**1.1.1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o’u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol**
**1.1.2 safonau grwpiau gwahanol o ddysgwyr**
**1.1.3 cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu**
**1.1.4 medrau**
**1.1.5 yr iaith Gymraeg**

**Materion wrth arolygu’r dangosydd ansawdd yng ngham dau**

Dylai arolygwyr bob amser ystyried yn ofalus a yw’r farn gyffredinol yn gyson â’r data sydd ar gael ai peidio. Pan na fydd gwybodaeth am ddata yn cael ei hadlewyrchu ym marnau’r arolygwyr yn y dangosydd ansawdd hwn, dylai’r adroddiad esbonio’n glir pam.

Dylai’r adroddiad ganolbwyntio ar y prif farnau am safonau sy’n deillio o’r dadansoddiad o ddata. Dylai hyn ymwneud yn bennaf â pha mor dda y mae’r coleg yn ei wneud, at ei gilydd, a’r duedd gyffredinol yn ei berfformiad, yn enwedig mewn perthynas â meicnodau lleol a chenedlaethol ac mewn perthynas â grwpiau penodol o ddysgwyr. Ni ddylai arolygwyr ddyrannu mwy na thraean o’r adran ar safonau i

sylwadau ar berfformiad y coleg mewn perthynas â data.  Yn unol â hynny, ni ddylai'r adroddiad gynnwys llawer o ddadansoddi data yn y fan hon.

**1.1.1: canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol**

Wrth lunio barn ar y dangosydd ansawdd hwn yng ngham dau, dylai arolygwyr ystyried ystod o ddata ar berfformiad dysgwyr ar draws y coleg cyfan.  Bydd arolygwyr yn rhoi'r pwys mwyaf ar brif gymwysterau a chyrsiau sylweddol (fel arfer, y cyrsiau hynny sydd â 150 o oriau dysgu dan arweiniad neu fwy).

Wrth edrych ar wybodaeth am berfformiad dysgwyr, bydd arolygwyr yn dadansoddi data cyhoeddedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys data meincnodi, lle bo hynny'n briodol.  Byddant yn dadansoddi data mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn gweld pa mor dda y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau a'u dyfarniadau.  Bydd arolygwyr yn edrych ar ddeilliannau data dros dair blynedd er mwyn nodi tueddiadau mewn perfformiad.  Byddant hefyd yn ystyried unrhyw wybodaeth sydd ar gael am ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn a pha gyfran o ddysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch neu ragoriaeth.  Dylai arolygwyr edrych yn benodol ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant.

Mae Atodiad 6 yn rhoi arweiniad manylach ar ddefnyddio data wrth arolygu cam un a cham dau.

**1.1.2:  safonau grwpiau o ddysgwyr yng ngham dau**

Bydd arolygwyr yn edrych ar berfformiad dysgwyr ar lefelau gwahanol a mathau gwahanol o gyrsiau ar lefel y coleg cyfan.  Byddant yn ystyried cefndiroedd grwpiau gwahanol o ddysgwyr a'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Gall arolygwyr ystyried perfformiad cymharol grwpiau gwahanol o ddysgwyr hefyd, gan gynnwys:

- dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais
- dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- dysgwyr o grwpiau ethnig gwahanol
- dysgwyr gwrywaidd a benywaidd

**1.1.3:  cyflawniad a chynnydd mewn dysgu yng ngham dau**

Dylai arfarniad arolygwyr o gyflawniad dysgwyr fod wedi ei seilio ar dystiolaeth o gam un, teithiau dysgu ychwanegol a thrafodaethau â dysgwyr.

**1.1.4:  medrau yng ngham dau**

Dylai ffocws gwaith arolygwyr wrth edrych ar fedrau fod ar ddeilliannau'r arfarniadau o gam un yr arolygiad.

**1.1.5:  yr iaith Gymraeg yng ngham dau**

Dylai ffocws gwaith arolygwyr wrth edrych ar fedrau Cymraeg dysgwyr fod ar ddeilliannau'r arfarniadau o gam un yr arolygiad.

Wrth lunio barn gyffredinol ar lefel y coleg, dylai arolygwyr ystyried beth mae'n rhesymol ei ddisgwyl, gan ystyried cefndir ieithyddol a chyd-destun y coleg y maent yn ei arolygu, a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu, cyn llunio barn gorfforaethol ar safonau mewn Cymraeg.

**Safonau da yng ngham dau**

Yn enwedig mewn perthynas â chyrsiau sylweddol, mae cyfradd llwyddo gyffredinol y coleg yn Chwartel 1 (Ch1) neu Ch2. Mae mwyafrif y meysydd pwnc sector yn Ch1 neu Ch2. Mae meysydd pwnc sector yn Ch3 neu Ch4 wedi dangos gwelliannau o gymharu â data'r blynyddoedd blaenorol. Mae gan y coleg hanes o fod yn Ch1 neu Ch2 neu mae wedi dangos gwelliant cyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r patrwm llwyddo yn gyson ar draws meysydd pwnc sector ar gyfer cyrsiau sylweddol, a deilliannau 'pob cwrs'.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt ac yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir ganddynt, o leiaf, mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos cynnydd gwell na'r disgwyl mewn llythrennedd a rhifedd, o ystyried eu mannau cychwyn.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran gwella eu medrau Cymraeg.

**Safonau anfoddhaol yng ngham dau**

Yn enwedig mewn perthynas â chyrsiau sylweddol, mae cyfradd llwyddo gyffredinol y coleg yn Chwartel 4 (Ch4) ac mae mwyafrif y meysydd pwnc sector yn Ch3 a Ch4. Mae ychydig iawn o feysydd pwnc sector yn Ch1. Mae mwyafrif y meysydd pwnc sector yn dangos tueddiadau o ran perfformiad sy'n sefydlog neu'n dirywio. Mae patrwm tanberfformiad yn gyson ar draws meysydd pwnc sector ar gyfer cyrsiau sylweddol, a deilliannau 'pob cwrs'.

Nid yw mwyafrif y dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd yn eu hastudiaethau. Nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir ganddynt mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn dangos cynnydd gwaeth na'r disgwyl mewn llythrennedd a rhifedd, o ystyried eu mannau cychwyn.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd gwael o ran gwella eu medrau Cymraeg mewn perthynas â'u dysgu blaenorol.

## 1.2 Lles

**1.2.1 agweddau at gadw'n iach a diogel**
**1.2.2 cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau**
**1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau**
**1.2.4 medrau cymdeithasol a medrau bywyd**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd yng ngham dau**

Mae'r ffocws yn y cwestiwn allweddol hwn ar ddeilliannau yn hytrach na darpariaeth. Dylai cwestiynau allweddol eraill, yn enwedig Cwestiwn Allweddol 2, ymdrin â gwaith y coleg yn hyrwyddo lles dysgwyr.

Dylai arolygwyr geisio barnu, cyhyd ag y bo'n bosibl, y materion hynny y mae gan y coleg rywfaint o ddylanwad arnynt. Dylent geisio gwneud yn siwr fod ymholiadau'n canolbwyntio ar effaith gwaith y maes dysgu a'r coleg yn y maes hwn. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth o unrhyw arolygon perthnasol o safbwyntiau dysgwyr.

**1.2.1: datblygu agweddau at gadw'n iach a diogel yng ngham dau**

Gall arolygwyr ychwanegu at y dystiolaeth a gasglwyd yng ngham un trwy deithiau dysgu ychwanegol.

**1.2.2: cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau yng ngham dau**

Gall arolygwyr ychwanegu at y dystiolaeth a gasglwyd yng ngham un trwy deithiau dysgu ychwanegol a chraffu ar unrhyw arolygon dysgwyr.

**1.2.3: ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau yng ngham dau**

Dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae dysgwyr yn cyfrannu at gymuned y coleg trwy gyfranogi yn yr undeb myfyrwyr a chyrff cynrychioliadol eraill, fel cynrychiolwyr dosbarth ac aelodaeth undeb ar fwrdd y llywodraethwyr. Dylent ystyried y ffyrdd y mae dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau yn y gymuned, er enghraifft fel rhan o Fagloriaeth Cymru.

**1.2.4: medrau cymdeithasol a medrau bywyd yng ngham dau**

Gall arolygwyr ychwanegu at y dystiolaeth a gasglwyd yng ngham un trwy deithiau dysgu ychwanegol a chraffu ar unrhyw arolygon dysgwyr.

**Lefelau lles da yng ngham dau**

Mae dysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch bod yn iach ac yn ddiogel yn y coleg, yn eu gweithle ac mewn lleoliadau cymunedol. Maent yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyfranogi'n dda mewn gwersi ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn cyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu rhinweddau personol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, eu hathrawon a'u hyfforddwyr. Gwnânt gyfraniadau da at gymuned eu coleg ac maent yn datblygu eu gallu ar gyfer lles economaidd a chymdeithasol. Maent yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu

gweithredoedd eu hunain a chanlyniadau'r gweithredoedd hynny.  Maent yn mwynhau dysgu ac yn dod yn feddylwyr annibynnol â barnau cytbwys.

**Lefelau lles anfoddhaol yng ngham dau**

Nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd digonol yn eu datblygiad personol. Mae ychydig o ddysgwyr mewn perygl oherwydd nad oes ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at iechyd a diogelwch yn y coleg nac yn eu gweithle.  Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, eu hathrawon a'u hyfforddwyr, nid ydynt yn mynychu'n rheolaidd ac maent yn hwyr yn gyson.  Yn aml, nid yw dysgwyr yn cyfranogi'n llawn mewn gwersi a sesiynau hyfforddi, ac maent yn chwarae rhan gyfyngedig iawn ym mywyd y coleg.  Dim ond cynnydd araf y mae llawer o ddysgwyr yn ei wneud yn eu gallu i wella eu lles economaidd a chymdeithasol.

## Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Cam dau

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, fel arfer dylai arolygwyr roi'r pwys mwyaf ar 2.2 (addysgu) pan fo cydbwysedd rhwng y pedair barn yn y cwestiwn allweddol.  Yn hyn o beth, os yw dau ddangosydd ansawdd yn dda a dau ohonynt yn ddigonol ar draws y cwestiwn allweddol, bydd y farn ar gyfer 2.2 (addysgu) fel arfer yn cael pwysoliad a fydd yn dylanwadu ar y farn gyffredinol a roddir ar gyfer y cwestiwn allweddol.

### 2.1 Profiadau dysgu

- **2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned**
- **2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau**
- **2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig**
- **2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**2.1.1: bodloni anghenion disgyblion, cyflogwyr a'r gymuned ehangach yng ngham dau**

Wrth arfarnu i ba raddau y mae'r coleg yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr, dylai arolygwyr ystyried y cyd-destun y mae'r coleg yn gweithio ynddo.  Bydd hyn yn ymwneud â darpariaeth addysg a hyfforddiant yn yr ardal leol, y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, a natur cyfleoedd cyflogaeth ac anghenion y gymuned. Hefyd, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor gryf y mae'r cysylltiadau rhwng y coleg a chyflogwyr.

Wrth arfarnu priodoldeb yr ystod cymwysterau ar draws y coleg, dylai arolygwyr ystyried y ffactorau uchod a'r ystod o ddewisiadau a chyfleoedd dilyniant sydd ar gael yn y coleg ac mewn mannau eraill, mewn gwirionedd.  Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y gall pob dysgwyr fanteisio'n gyfartal ar gwricwlwm y coleg.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn addasu'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnig i fodloni anghenion Rhaglenni Dysgu. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth Bagloriaeth Cymru. Dylai arolygwyr ystyried darpariaeth y coleg i ddysgwyr gymryd rhan mewn cymwysterau sydd wedi eu seilio ar gredydau.

Bydd angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn darparu addysg effeithiol a phriodol yn gysylltiedig â gwaith er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

**2.1.2: darpariaeth ar gyfer medrau yng ngham dau**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd (cyfathrebu), rhifedd (cymhwyso rhif), a medrau llythrennedd digidol dysgwyr ar draws y cwricwlwm ac oddi mewn iddo, ac yn cyflawni hyn.

Dylent arfarnu pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu effaith unrhyw bolisïau neu drefniadau sydd â'r nod o ddatblygu medrau hanfodol yn systematig dros amser ac mewn ystod eang o gyd-destunau.

Dylai arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ar draws y coleg.

Dylai arolygwyr asesu pa mor dda y mae'r coleg yn monitro ac yn arfarnu data medrau hanfodol, yn enwedig asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig, ac yn defnyddio'r data i gynllunio gwelliant.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r coleg yn adnabod dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, pa mor dda y mae'n cynllunio ar gyfer cymorth a pha mor dda y mae'n monitro effaith mentrau cymorth.

Dylai arolygwyr asesu i ba raddau y mae'r coleg yn annog pob dysgwr i ddatblygu eu medrau, yn enwedig y rhai sydd â TGAU mewn Saesneg/Cymraeg a mathemateg, a'r rhai a ddylai fod yn datblygu medrau ar lefel 3.

Dylai arolygwyr ystyried priodoldeb ac ansawdd darpariaeth y cymorth y mae'r coleg wedi ei roi ar waith i ddatblygu medrau iaith i ddysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg na Chymraeg fel iaith gyntaf.

**2.1.3: darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yng ngham dau**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r coleg yn cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ogystal ag ymestyn medrau Cymraeg dysgwyr nad ydynt wedi astudio llawer o Gymraeg. Dylent ystyried gofynion ieithyddol cyflogwyr yn yr ardal.

Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae'r coleg yn hyrwyddo datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

**2.1.4: addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yng ngham dau**

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymestyn eu gwybodaeth am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF), er enghraifft trwy Fagloriaeth Cymru.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau:

- y mae'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, medrau a gwerthoedd ADCDF
- y mae'r coleg yn cyfrannu at ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft trwy ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach a gwerthfawrogiad o amrywiaeth fyd-eang

**Profiadau dysgu da yng ngham dau**

Mae'r coleg yn darparu ystod dda o gyrsiau a chyfleoedd hyfforddiant ar lefelau sy'n briodol i anghenion dysgwyr yn yr ardal.  Gall bron pob un o'r dysgwyr ddilyn cyrsiau sy'n cyfateb i'w dewisiadau a'u hanghenion.  Mae'r coleg yn ymateb i anghenion cyflogwyr a gofynion allanol eraill, ac mae'n defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda.  Mae ystod dda o weithgareddau profiad gwaith ar gael i bob dysgwr.  Mae gan y coleg gynlluniau cydlynus ar gyfer datblygu medrau dysgwyr.  Mae'r rhain yn effeithiol o ran gwella medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr o bob gallu.  Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfleoedd da i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy, yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth am Gymru a'r iaith Gymraeg.

**Profiadau dysgu anfoddhaol yng ngham dau**

Nid yw'r coleg yn dadansoddi anghenion dysgwyr a chyflogwyr fel mater o drefn ac, o ganlyniad, ceir cyfatebiaeth anfoddhaol rhwng yr anghenion hyn ac ystod a lefel y cyrsiau a ddarperir gan y coleg.  Mae trefniadau'r coleg ar gyfer gwella llythrennedd, rhifedd a medrau llythrennedd digidol dysgwyr yn gyfyngedig ac nid ydynt yn gydlynus.  Nid yw'r coleg yn darparu digon o brofiad gwaith perthnasol i ddysgwyr.  Nid yw'r coleg yn gwneud digon i ymestyn gwybodaeth dysgwyr am ddinasyddiaeth fyd-eang, datblygiad cynaliadwy, yn ogystal â gwybodaeth dysgwyr am Gymru a'r iaith Gymraeg.

## 2.2 Addysgu neu hyfforddi

### 2.2.1 ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi
### 2.2.2 asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Dylai'r ffocws fod ar effaith addysgu/hyfforddi ar ddysgu ac nid ar ddefnyddio dull penodol ar wahân i'w effaith.

**2.2.1: ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi yng ngham dau**

Bydd arolygwyr yn arfarnu effeithiolrwydd strategaethau addysgu a hyfforddi, ond ni fyddant yn rhagnodol ynglŷn â dulliau addysgu.

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae athrawon a hyfforddwyr:

- yn defnyddio gwybodaeth bynciol a thechnegol gyfredol
- yn disgwyl llawer gan bob dysgwr
- yn cynllunio'n effeithiol ac yn meddu ar amcanion clir ar gyfer profiadau dysgu
- yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu hysgogi a'u herio
- yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd
- yn fodelau iaith da eu hunain
- yn sefydlu perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu
- yn defnyddio staff technegol a staff cymorth dysgu yn effeithiol
- yn effeithiol o ran darparu gwaith ymestynnol i fodloni anghenion pob dysgwyr, beth bynnag fo'i (g)allu

Bydd arolygwyr yn arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn y gwaith yn cael eu hyfforddi yn y gwaith, yn ogystal â mewn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

**2.2.2: asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu yng ngham dau**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r coleg, meysydd dysgu ac athrawon yn olrhain ac yn cadw cofnodion o gynnydd pob dysgwr, ac yn adrodd ar y rhain yn glir ac yn ddefnyddiol i rieni a chyflogwyr, lle bo hynny'n briodol.

Dylai arolygwyr arfarnu a yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cymryd rhan mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain. Dylent arfarnu:

- pa mor dda y mae adborth llafar a marcio yn galluogi dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella
- priodoldeb asesu ffurfiannol ac asesu crynodol, a'i ddefnydd wrth gynllunio a gwella dysgu
- pa mor dda y mae dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn asesu eu cynnydd a'u cyflawniadau eu hunain, a pha mor dda y maent yn deall sut i wella

**Addysgu/hyfforddi da yng ngham dau**

Mae'r rhan fwyaf o addysgu'n sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cymell a'u cynnwys ac yn sicrhau cynnydd da dysgwyr mewn dysgu. Mae addysgu a hyfforddiant yn darparu her briodol i ddysgwyr o bob gallu sy'n bodloni eu hanghenion gwahanol. Mae athrawon a hyfforddwyr yn defnyddio gwybodaeth bynciol a thechnegol gyfredol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a hyfforddwyr yn defnyddio adnoddau dysgu'n dda i ennyn diddordeb dysgwyr. Maent yn gwneud defnydd da o wybodaeth o asesiadau dysgwyr i osod targedau heriol i wella gwybodaeth, medrau a deilliannau dysgwyr. Maent yn cadw cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau dysgwyr ac yn rhoi adborth da ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith. Maent yn darparu adroddiadau rheolaidd a defnyddiol i gyflogwyr a rhieni ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr.

**Addysgu/hyfforddi anfoddhaol yng ngham dau**

Nid yw addysgu a hyfforddiant yn cael effaith ddigon da ar ddysgu, oherwydd nid ydynt yn herio nac yn diddori llawer o'r dysgwyr. Mae gan leiafrif sylweddol o athrawon a hyfforddwyr wybodaeth bynciol neu dechnegol annigonol ar gyfer lefel y cwrs. Nid yw llawer o'r athrawon a'r hyfforddwyr yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau addysgu a dysgu. Yn aml, nid yw athrawon a hyfforddwyr yn cynllunio asesu'n ddigon da, ac nid ydynt yn rhoi digon o adborth ysgrifenedig i ddysgwyr ar sut i wella safon eu gwaith. Mae llawer o athrawon a hyfforddwyr yn cadw cofnodion gwael o asesiadau. Nid yw llawer o gyflogwyr a rhieni'n cael digon o wybodaeth am gynnydd a deilliannau dysgwyr.

## 2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad

**2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles**
**2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol**
**2.3.3 trefniadau diogelu**
**2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Dylai'r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith gofal, cymorth ac arweiniad ar safonau a lles dysgwyr, yn hytrach nag ar y gweithdrefnau a'r trefniadau. Yn benodol, dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r trefniadau'n cael effaith fuddiol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Wrth arfarnu gofal, cymorth ac arweiniad, dylai arolygwyr ystyried barnau'r tîm ar safonau a lles.

**2.3.1: darpariaeth ar gyfer iechyd a lles yng ngham dau**

At ei gilydd, dylai arolygwyr arfarnu trefniadau'r coleg ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles. Gall hyn gynnwys argaeledd dewisiadau bwyta iach yn ogystal ag arweiniad a chymorth arall y mae'r coleg yn eu darparu i ddiogelu lles pob dysgwr.

Dylai arolygwyr adrodd ar achosion amlwg o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch o dan y dangosydd ansawdd hwn.

Dylai arolygwyr arfarnu polisïau a gweithdrefnau'r coleg ar gyfer ymdrin ag aflonyddu a bwlio. Dylent arfarnu pa mor dda y mae'r coleg yn cofnodi digwyddiadau, pa mor dda y mae'n cymryd camau priodol a pha mor dda y mae'n rhoi cymorth i feysydd dysgu er mwyn sicrhau lles parhaus dysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r coleg yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth.

Dylai arolygwyr farnu beth mae'r coleg yn ei wneud i hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb da.

**2.3.2: gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol yng ngham dau**

Dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd arweiniad diduedd o ran galluogi pob dysgwr i wneud dewisiadau realistig ynglŷn â'u dysgu a'u dewis o gyrsiau.

Dylent asesu'r cyfle y gall dysgwyr fanteisio ar gyngor annibynnol yn y coleg, gan hyfforddwyr dysgu a chan asiantaethau allanol, a dylent farnu effeithiolrwydd ffynonellau gwybodaeth fel prosbectysau, taflenni cyrsiau a gwefan y coleg.

Dylai arolygwyr ystyried cydlyniad ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys argaeledd gwasanaeth asiantaethau cymorth arbenigol a'r gallu i fanteisio arnynt, yn enwedig i'r dysgwyr hynny sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu, gan gynnwys rhwystrau personol, ariannol, domestig, cludiant, iechyd, tai a chyfrifoldebau gofal teulu.

**2.3.3: trefniadau diogelu yng ngham dau**

Dylai trefniadau diogelu'r darparwr sicrhau bod recriwtio diogel a bod yr holl ddysgwyr yn cael eu hamddiffyn. Dylai trefniadau gynnwys adnabod dysgwyr sy'n agored i niwed sydd mewn angen neu sy'n wynebu risg o niwed sylweddol trwy gynnal cofnod o addasrwydd staff a gwirfoddolwyr a thrwy gael trefniadau priodol ar gyfer amddiffyn dysgwyr sy'n agored i niwed. Hefyd, dylai gynnwys pa mor dda y mae'r darparwr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r coleg yn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i bob darparwr gydymffurfio â gofynion fel y cânt eu hamlinellu yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r maes hwn (gweler Atodiad 3).

Bydd angen i arolygwyr ganfod a yw trefniadau'r coleg yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn destun pryder.

**2.3.4: anghenion dysgu ychwanegol yng ngham dau**

Mae'r term ADY yn berthnasol i ddysgwyr o bob oedran y mae eu hanghenion dysgu yn ychwanegol at y mwyafrif o'u cyfoedion.

Gweler Atodiad 5 am ragor o arweiniad.

Dylai arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd cyffredinol darpariaeth y mae'r meysydd dysgu a'r coleg yn ei rhoi ar waith ar gyfer unrhyw gategori o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau cymorth ychwanegol y mae'r coleg yn eu gwneud i fodloni anghenion unigol, yn ogystal â darparu cymorth dysgu

ychwanegol i ddysgwyr y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt â medrau sylfaenol, er mwyn bodloni gofynion nod eu prif gymhwyster.

**Gofal, cymorth ac arweiniad da yng ngham dau**

Gall pob dysgwyr fanteisio ar wybodaeth a chyngor diduedd cyn-mynediad. Mae'r coleg yn nodi anghenion dysgu unigolion pan fyddant yn ymuno â'r coleg ac mae'n gwneud y siwr y caiff yr anghenion hyn eu bodloni'n amserol. Mae'r coleg yn gwneud yn siwr fod tiwtorialau yn fuddiol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr. Mae'r coleg yn gwneud yn siwr y gall pob dysgwr fanteisio ar wasanaethau cymorth ehangach ac asiantaethau allanol, yn ôl yr angen. Mae'r coleg yn gwneud trefniadau da ar gyfer cymorth i bob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch pob dysgwr yn dda. Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Gofal, cymorth ac arweiniad anfoddhaol yng ngham dau**

Mae arweiniad cychwynnol yn annigonol ac mae llawer o ddysgwyr yn methu cwblhau eu cyrsiau. Mae'r coleg yn rhy araf o ran nodi anghenion dysgu unigolion ac, yn aml, nid yw'n trefnu darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion cymorth dysgwyr. Nid oes strwythur cadarn i diwtorialau ac mae diben a phresenoldeb mewn tiwtorialau yn anfoddhaol. Mae gan y coleg ystod gyfyngedig iawn o wasanaethau cymorth. Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

## 2.4 Yr amgylchedd dysgu

**2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth**
**2.4.2 amgylchedd ffisegol**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**2.4.1: ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngham dau**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r coleg:

- yn sefydlu ethos cynhwysol
- yn herio pob math o wahaniaethu neu anghydraddoldeb ar gyfer pob grŵp a allai ddioddef diffyg cyfleoedd teg ar gyfer dysgu a/neu gyflogaeth
- yn cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac yn herio ystrydebau mewn dewisiadau dysgwyr
- yn datblygu agweddau goddefgar ac yn sicrhau bod pob dysgwr ac aelod staff yn rhydd rhag aflonyddwch
- yn hyrwyddo atal a chael gwared ar ymddygiad gormesol trwy weithredu ei bolisïau a'i weithdrefnau

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn y gwaith yn cael eu diogelu rhag aflonyddwch a gwahaniaethu yn eu gweithleoedd.

Dylent arfarnu a yw'r coleg:

- yn meddu ar bolisi sy'n cael ei ddeall yn dda, sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a

hawliau dynol
- yn meddu ar gynllun gweithredu sy'n sicrhau y caiff y polisi ei gyflawni
- yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb priodol ar gyfer staff
- yn monitro ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion neu gŵynion cysylltiedig sy'n codi

**2.4.2: amgylchedd ffisegol yng ngham dau**

Dylai arolygwyr farnu:

- a oes digon o adnoddau sy'n gweddu i anghenion dysgwyr
- a yw'r adeiladau'n darparu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cael ei gynnal yn dda i gefnogi dysgu, addysgu a hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith
- a yw'r adeiladau a'r offer arbenigol yn gyfoes
- a yw'r ystafelloedd ym mhob canolfan a ddefnyddir gan y dysgwyr yn ddigonol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda

**Amgylchedd dysgu da yng ngham dau**

Mae systemau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro a chael gwared ar bob math o wahaniaethu ac aflonyddu. Mae'r coleg yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n tanategu cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn dda. Mae ymagwedd dda at gynhwysiant cymdeithasol ac addysgol. Mae bron yr holl adnoddau dysgu a'r adeiladau yn addas i'r diben ac yn gwbl hygyrch.

**Amgylchedd dysgu anfoddhaol yng ngham dau**

Mae systemau a gweithdrefnau annigonol ar gyfer monitro gwahaniaethu ac aflonyddu, ac nid oes llawer o gofnodion defnyddiol o achosion o ymddygiad gwahaniaethol. Mae lleiafrif sylweddol o ddysgwyr yn cwyno eu bod yn dioddef bwlio'n aml, ac nid yw'r coleg yn gwneud digon i ddelio â hynny. Nid yw llawer o ddysgwyr yn gyfarwydd ag egwyddorion cyfle cyfartal, yn enwedig yn ymwneud ag arferion yn y gwaith. Mae lleiafrif sylweddol o'r adeiladau mewn cyflwr anfoddhaol, ac nid ydynt yn addas i'r diben y cânt eu defnyddio ar ei gyfer. Nid oes adnoddau dysgu digon da yn y lleiafrif sylweddol o ystafelloedd addysgu ym mhob un o'r lleoliadau. Nid oes stoc foddhaol na digonol o gyfrifiaduron yn y ganolfan adnoddau dysgu ychwaith.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, dylai arolygwyr roi pwys cyfartal ar bob dangosydd ansawdd, gan ystyried yr arfarniadau cryno o gryfderau allweddol a meysydd i'w gwella o feysydd dysgu yng ngham 1.

## 3.1 Arweinyddiaeth

### 3.1.1 cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth
### 3.1.2 llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**3.1.1: cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth yng ngham dau**

Prif gyfrifoldeb yr arweinwyr a'r rheolwyr yw gwneud yn siŵr fod pob un o'r dysgwr yn cael safon uchel o addysg a hyfforddiant, ni waeth pa lefel neu raglen ddysgu y maent yn ei dewis. Dylai arolygwyr roi ystyriaeth briodol i'r barnau ar safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, a'u lles, wrth lunio barn ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Dylent ystyried i ba raddau y mae gan bob arweinydd a rheolwr nodau, amcanion, cynlluniau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion dysgwyr ar bob lefel.

Wrth arfarnu effaith arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel, dylai arolygwyr farnu:

- pa mor dda y caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio a ph'un a yw rhychwantau rheolaeth a llinellau atebolrwydd ar draws pob lefel reolaeth yn hyfyw ac yn gytbwys
- i ba raddau y mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas uniongyrchol â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau penodol
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn rheoli eu hamser eu hunain er mwyn blaenoriaethu gweithgareddau'n briodol
- cydlyniad arweinyddiaeth a rheolaeth a strwythurau ar bob lefel
- pa mor effeithiol y caiff cyfarfodydd eu hamserlennu a'u cynnal i wella busnes craidd a pherfformiad dysgwyr
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio data i osod amcanion a rheoli perfformiad staff
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn cydweithio â rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo gwaith a chyfeiriad y coleg ar bob lefel
- effeithiolrwydd cyfathrebu
- effaith arweinwyr a rheolwyr ar ddiwylliant a morâl y sefydliad yn ei gyfanrwydd

Dylai arolygwyr roi ystyriaeth ofalus i rôl y pennaeth o ran pennu naws y sefydliad a gosod safonau uchel ar gyfer staff a dysgwyr, a sefydlu gwerthoedd a rennir.

Dylent ystyried a yw arweinwyr:

- yn mynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr
- yn defnyddio gosod targedau i hybu gwelliannau

Dylai arolygwyr arfarnu effaith arweinwyr a rheolwyr yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn eu helpu i wella eu harfer. Hefyd, dylent farnu a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael ag achosion o danberfformio, ar bob lefel, yn drylwyr ac yn uniongyrchol, yn ôl yr angen. Gallant nodi a gaiff targedau gwella priodol eu gosod ar gyfer staff, sy'n ategu cyflawni nodau strategol mewn cynllunio datblygu a chynlluniau gweithredu eraill.

Dylai arolygwyr farnu ymatebion y coleg i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg. Hefyd, dylent ystyried pa mor ymatebol yw'r coleg a meysydd dysgu i newidiadau i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**3.1.2: llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill yng ngham dau**

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol.

Dylent arfarnu pa mor dda y mae llywodraethwyr:

- yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- yn herio uwch reolwyr y coleg
- yn pennu cyfeiriad strategol priodol yn ogystal â chytuno ar natur a chwmpas darpariaeth
- yn goruchwylio'r safonau a'r ansawdd a gyflawnir gan ddysgwyr ym mhob rhan o'r coleg
- yn goruchwylio gweithdrefnau ac arferion y coleg yn ymwneud â chwynion ac apeliadau

**Arweinyddiaeth dda yng ngham dau**

Mae pennaeth y coleg a'r uwch reolwyr yn effeithiol, yn gyffredinol, o ran darparu cyfeiriad, gweledigaeth a gwerthoedd clir a hyrwyddo safonau uchel sy'n cael effaith uniongyrchol ar berfformiad a lles dysgwyr. Yn gyffredinol, mae morâl staff yn dda ac mae'r staff yn helpu i ddatblygu blaenoriaethau strategol y coleg a bod yn berchen arnynt. Maent yn gwybod beth yw eu rolau o ran gwella ansawdd darpariaeth y maent yn gyfrifol amdani. Yn gyffredinol, mae'r coleg yn bodloni ei dargedau perfformiad ei hun. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus am waith y coleg a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Maent yn darparu her a chymorth i'r pennaeth ac uwch reolwyr. Mae llinellau atebolrwydd rheolwyr yn glir a chânt eu dirprwyo'n briodol.

**Arweinyddiaeth anfoddhaol yng ngham dau**

Nid yw llawer o staff y coleg yn adnabod y pennaeth a'r uwch reolwyr. Maent yn ymbellhau oddi wrth gyfrifoldeb dros safonau. Mae morâl staff yn anfoddhaol ac mae cyfradd absenoldeb staff yn uchel. Mae'r trefniadau cyfathrebu yn gyfyngedig. Caiff rhaid meysydd dysgu eu rheoli'n anfoddhaol, ac mae lefelau atebolrwydd yn isel ar bob lefel reoli. Nid yw'r llywodraethwyr yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, ac nid ydynt yn darparu her gadarn i'r pennaeth a'r uwch reolwyr. Nid ydynt yn nodi materion yn ymwneud â pherfformiad gwael nac yn mynd i'r afael â nhw.

## 3.2 Gwella ansawdd

### 3.2.1 hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill
### 3.2.2 cynllunio a sicrhau gwelliant

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**3.2.1: hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill yng ngham dau**

Mae hunanasesu cywir a chynhwysfawr wrth wraidd yr holl drefniadau ar gyfer gwella ansawdd. Dylai ffocws hunanasesu fod ar nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau. Mae'n annhebygol y gall ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth fod yn dda os nad oes gan y coleg weithdrefnau hunanasesu effeithiol ar bob lefel.

Dylai arolygwyr:

- arfarnu pa mor dda y mae'r coleg yn defnyddio deilliannau arolygon dysgwyr, cyflogwyr a staff i hunanasesu a chynllunio ar gyfer gwella
- ystyried y ffyrdd y mae'r coleg yn dadansoddi ac yn ymateb i unrhyw bryderon a godir, yn enwedig gan ddysgwyr
- asesu i ba raddau y caiff staff eu cynnwys mewn asesu deilliannau a pherfformiad ar bob lefel
- arfarnu effeithiolrwydd yr hyn y mae'r coleg yn ei wneud i wella profiadau dysgu a deilliannau
- barnu i ba raddau y mae hunanasesu'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd addysgu a dysgu ar bob lefel
- arfarnu pa mor dda y mae'r coleg yn defnyddio data gan ddarparwyr eraill i gymharu deilliannau dysgwyr ar bob lefel trwy weithgareddau meincnodi
- barnu pa mor dda y mae'n cymharu ei berfformiad â pherfformiad darparwyr tebyg mewn gwledydd eraill yn y DU, yn enwedig ar gyfer darpariaeth arbenigol
- barnu pa mor dda y caiff trefniadau'r coleg ar gyfer gwella ansawdd eu hintegreiddio'n agos â threfniadau eraill i wella ansawdd, fel rheoli perfformiad staff
- barnu pa mor dda y caiff hunanasesu ei ymgorffori mewn cynllunio strategol a chynllunio'r cwricwlwm

Ni ddylai arolygwyr ragnodi unrhyw fodel gwella ansawdd penodol.

**3.2.2: cynllunio a sicrhau gwelliant yng ngham dau**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor effeithiol yw'r coleg o ran gwella ansawdd ei holl waith, gan gynnwys gwaith sy'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

Dylent arfarnu pa mor dda:

- y caiff cylchoedd gwella ansawdd eu hintegreiddio â chylchoedd cynllunio eraill
- y mae'r coleg yn blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer gwella trwy ddyrannu

adnoddau a chyfrifoldebau
- y mae’r coleg yn gosod amserlenni penodol a realistig ar gyfer sicrhau gwelliannau
- y mae’r camau a gymerwyd wedi cael effaith gadarnhaol a, lle y bo’n berthnasol, wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried sut mae’r coleg wedi ymateb i argymhellion yr adroddiad arolygu diwethaf, a ph’un a yw’r camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd ai peidio.

Dylai arolygwyr farnu a yw rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu unigol a choleg cyfan yn glir, ac a yw’r rhain wedi eu seilio ar ddeilliannau arsylwadau a thystiolaeth uniongyrchol arall. Dylai arolygwyr asesu i ba raddau y caiff y rhain eu blaenoriaethu’n briodol a ph’un a eir i’r afael â nhw’n llawn ai peidio.

**Gwella ansawdd yn dda yng ngham dau**

Mae systemau a gweithdrefnau yn effeithiol o ran nodi a monitro tanberfformio ac o ran sicrhau gwelliannau mewn profiadau a deilliannau dysgwyr. Mae prosesau hunanasesu yn arfarnol, ac mae’r barnau’n cyfateb yn rhesymol i farnau’r tîm arolygu. Caiff targedau ar gyfer perfformiad gwell eu defnyddio’n dda ar bob lefel, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr unigol. Mae cysylltiad agos gan y rhan fwyaf o’r staff â’r broses hunanasesu ac wrth nodi meysydd i’w gwella. Mae’r coleg yn defnyddio tystiolaeth o arolygon yn dda i sicrhau gwelliant. Caiff gweithdrefnau sicrhau ansawdd eu cymhwyso’n gyson ar draws bob rhan o waith y coleg.

**Gwella ansawdd yn anfoddhaol yng ngham dau**

Nid yw perfformiad wedi gwella neu mae wedi dirywio ers yr arolygiad diwethaf. Nid yw’r cynlluniau ar gyfer sicrhau gwelliant yn cael blaenoriaeth uchel ymhlith uwch reolwyr. Mae ardaloedd o’r coleg yn methu’n gyson â gwella eu perfformiad. Mae prosesau hunanasesu’n arwynebol ac nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i dueddiadau mewn deilliannau, gwaith dysgwyr a’r cynnydd y maent yn ei wneud mewn dosbarthiadau ac mewn sesiynau hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o’r gwaith. Nid yw rheolwyr yn monitro perfformiad yn rheolaidd nac yn mynd i’r afael â materion ar gyfer gwella. Nid yw gosod targedau yn rhan o’r diwylliant. Nid yw staff yn arfarnu eu perfformiad eu hunain yn dda er mwyn gwybod eu cryfderau a’u meysydd i’w datblygu.

## 3.3 Gweithio mewn partneriaeth

### 3.3.1 partneriaethau strategol
### 3.3.2 cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

**Materion wrth arolygu’r dangosydd ansawdd**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae’r maes dysgu a’r coleg yn cydweithio â’u partneriaid i wella safonau, lles a chyfleoedd dysgwyr.

Dylai’r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith partneriaethau

strategol a phartneriaethau meysydd dysgu ar safonau a lles dysgwyr, ac nid dim ond ar nifer ac ystod y partneriaid neu natur ac ansawdd y trefniadau partneriaeth.

**3.3.1: partneriaethau strategol yng ngham dau**

Gall partneriaid gynnwys:

- ysgolion uwchradd yn yr ardal
- colegau addysg uwch
- cyflogwyr lleol a chenedlaethol
- darparwyr eraill dysgu yn y gwaith
- colegau eraill
- grwpiau cymunedol a gwirfoddol
- awdurdodau lleol yn yr ardal y mae'r coleg yn ei gwasanaethu

**3.3.2: cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd**

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r coleg yn cydweithio â phartneriaid eraill i gynllunio a chyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus sy'n ystyried holl anghenion dysgwyr yn llawn. Dylent farnu effeithiolrwydd cyfraniad y coleg at drefniadau cynllunio a sicrhau ansawdd y bartneriaeth. Bydd y rhain yn cynnwys cyrsiau dysgu yn y gwaith sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd gan y coleg a chyflogwyr.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried effaith y bartneriaeth ar wella deilliannau i ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau sy'n cael eu cyflwyno trwy drefniadau partneriaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth yn dda yng ngham dau**

Mae gan y coleg bartneriaeth gref ac effeithiol ag ystod briodol o ddarparwyr. Maent yn cymryd rhan arweiniol mewn datblygu arferion gwaith ar y cyd. Maent yn gweithio'n dda i feithrin ymddiriedaeth rhwng y partneriaid. Lles pob un o'r dysgwyr sydd yn bwysig iddynt bob amser wrth ystyried y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae'r coleg yn agored, yn gynhwysol ac yn rhagweithiol ar bob lefel yn ei ymagwedd at bartneriaid eraill. Mae effaith gweithio mewn partneriaeth yn cyfrannu at wella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac yn ymestyn y cyfleoedd cwricwlwm sydd ar gael iddynt.

**Gweithio mewn partneriaeth yn anfoddhaol yng ngham dau**

Mae'r coleg yn chwarae rhan fach mewn unrhyw bartneriaethau yn yr ardal. Mae ganddo lawer o gysylltiadau â rhanddeiliaid allanol, ond mae'r rhain yn aml yn anghyson ac ni chânt eu defnyddio'n systematig i ddatblygu na gwella gweithio mewn partneriaeth. Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn mynychu cyfarfodydd y partneriaethau a'u gweithgorau'n aml. Mae teimlad cryf o ddiffyg ymddiriedaeth rhwng partneriaid ac nid oes llawer o arferion gwaith yn cael eu rhannu. Mae'r coleg yn ceisio diogelu ei arferion gwaith presennol a'i ymreolaeth.

## 3.4 Rheoli adnoddau

### 3.4.1 rheoli staff ac adnoddau
### 3.4.2 gwerth am arian

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Fel arfer, dylai'r farn gyffredinol ar y dangosydd ansawdd hwn fod yr un fath â'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond gall fod yn is.

Wrth arolygu rheoli adnoddau, dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r coleg yn cynllunio ac yn cynnal strategaethau effeithiol i sicrhau a monitro eu bod yn rheoli adnoddau'n dda ac yn cyflawni gwerth am arian.

**3.4.1: rheoli staff ac adnoddau yng ngham dau**

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae cynlluniau strategol y coleg wedi eu seilio'n gadarn ar egwyddorion cynllunio busnes da.

Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn rheoli cyllid ac adnoddau mewn ffyrdd sy'n helpu coleg i gyflawni ei flaenoriaethau addysgol
- yn sicrhau bod y coleg wedi ei staffio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol
- yn defnyddio gwybodaeth feincnodi i gyfeirio adnoddau i feysydd lle mae eu hangen fwyaf
- yn darparu adeiladu o'r safon orau

Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae'r staff:

- yn cael eu cynorthwyo gan y coleg i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus i fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned
- yn caffael gwybodaeth a medrau newydd i ddatblygu dulliau mwy effeithiol o ddysgu, addysgu a hyfforddi
- yn rhannu arfer dda ag athrawon a hyfforddwyr eraill yn y coleg a'r tu hwnt
- yn myfyrio ar eu harfer eu hunain
- yn sicrhau bod eu dysgu proffesiynol yn cael effaith ar gyflawniadau a lles dysgwyr

Dylai arolygwyr gynnwys arfarniad o briodoldeb ac effaith rhaglen y coleg ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, a'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a pha mor dda y mae'r rhain yn ysgogi staff ac yn gwella eu perfformiad.

**3.4.2: gwerth am arian yng ngham dau**

Wrth arolygu gwerth am arian, dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd y coleg o ran cyflawni deilliannau o ansawdd uchel i ddysgwyr yng Nghwestiwn Allweddol 1. Fodd bynnag, dylent hefyd ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn rheoli ei adnoddau. Os yw adnoddau'n cael eu rheoli'n wael, hyd yn oed os yw'r deilliannau'n dda, dylai'r farn gyffredinol adlewyrchu'r meysydd i'w datblygu a nodwyd.

Dylai arolygwyr arfarnu:

- effeithiolrwydd darpariaeth o ran sicrhau deilliannau priodol i ddysgwyr, yn gyffredinol
- i ba raddau y mae'r coleg yn cydbwyso effeithiolrwydd ei ddarpariaeth yn erbyn costau yn llwyddiannus, gan gynnwys costau staffio
- pa mor dda y mae darparwyr yn gwybod costau rhaglenni a gweithgareddau presennol, yn eu hadolygu'n gyson ac yn cwestiynu a ydynt yn gost-effeithiol
- i ba raddau y mae'n gwneud defnydd da o'r cyllid a gaiff

Gall arolygwyr ystyried faint y mae'r coleg wedi elwa ar enillion effeithlonrwydd yn sgil cyfuno, ad-drefnu neu drefniadau cydweithio.

Dylent ddatgan yn yr adroddiad bod y coleg yn cynnig gwerth am arian rhagorol, da, digonol neu anfoddhaol i'w ddysgwyr o ran y defnydd a wneir o'i incwm.

**Rheoli adnoddau'n dda yng ngham dau**

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol. Mae rheolwyr y coleg yn defnyddio data o arolygon meincnodi yn dda i nodi cyfleoedd i ailgyfeirio adnoddau er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae gan y coleg gynlluniau sydd wedi eu hystyried a'u costio'n dda ar gyfer gwella ansawdd ei adeiladau a'i adnoddau. Mae'r coleg yn arfarnu effeithiolrwydd mesurau sydd ganddo i wella perfformiad athrawon a staff eraill. Mae'r cyfraddau defnyddio adnoddau addysgu ac adnoddau adeiladau eraill yn dda. Mae'r coleg yn darparu gwerth da am arian ar gyfer ei ddysgwyr.

**Rheoli adnoddau'n anfoddhaol yng ngham dau**

Ychydig iawn o ddefnydd a wna'r coleg o wybodaeth feincnodi i ategu ei gynlluniau ar gyfer gwella adeiladau a'i ddefnydd o adnoddau. Nid yw ei strategaeth adeiladau yn cyfateb yn dda i'w gynlluniau i ddatblygu'r cwricwlwm. Nid oes cysylltiad boddhaol rhwng strategaeth datblygu staff y coleg a'i strategaethau ar gyfer gwella ansawdd a datblygu'r cwricwlwm. Nid yw'n arfarnu effeithiolrwydd ei raglen datblygu staff na pha mor dda y caiff staff eu defnyddio. Mae'r cyfraddau defnyddio ystafelloedd yn amrywiol iawn ac yn isel yn aml. Mae'r coleg yn darparu gwerth anfoddhaol am arian ar gyfer ei ddysgwyr.

## Atodiad 1: Fframwaith Arolygu Cyffredin

### CAM UN

| CwA | Dangosyddion Ansawdd | Agweddau |
|---|---|---|
| 1 DEILLIANNAU | **1.1 Safonau** | • canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol<br>• safonau grwpiau o ddysgwyr<br>• cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu<br>• medrau<br>• yr iaith Gymraeg |
| | **1.2 Lles** | • agweddau at gadw'n iach a diogel<br>• cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau<br>• ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau<br>• medrau cymdeithasol a medrau bywyd |
| 2 DARPARIAETH | **2.1 Profiadau dysgu** | • bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned<br>• darpariaeth ar gyfer medrau<br>• darpariaeth Gymraeg a'i dimensiwn Cymreig<br>• addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang |
| | **2.2 Addysgu** | • ystod ac ansawdd y dulliau addysgu<br>• asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu |
| | **2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad** | • darpariaeth ar gyfer iechyd a lles<br>• gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol<br>• trefniadau diogelu<br>• anghenion dysgu ychwanegol |
| | **2.4 Yr amgylchedd dysgu** | • ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• amgylchedd ffisegol |
| 3 ARWEINYDDIAETH | **3.1 Arweinyddiaeth** | • cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth |
| | **3.2 Gwella ansawdd** | • hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill<br>• cynllunio a sicrhau gwelliant |
| | **3.3 Gweithio mewn partneriaeth** | • partneriaethau strategol<br>• cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd |
| | **3.4 Rheoli adnoddau** | • rheoli staff ac adnoddau<br>• gwerth am arian |

# CAM DAU

| CwA | Dangosyddion Ansawdd | Agweddau |
|---|---|---|
| 1 DEILLIANNAU | **1.1 Safonau** | 1.1.1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol<br>1.1.2 safonau grwpiau o ddysgwyr<br>1.1.3 cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu<br>1.1.4 medrau<br>1.1.5 yr iaith Gymraeg |
| | **1.2 Lles** | 1.2.1 agweddau at gadw'n iach a diogel<br>1.2.2 cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau<br>1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau<br>1.2.4 medrau cymdeithasol a medrau bywyd |
| 2 DARPARIAETH | **2.1 Profiadau dysgu** | 2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned<br>2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau<br>2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig<br>2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang |
| | **2.2 Addysgu** | 2.2.1 ystod ac ansawdd y dulliau addysgu<br>2.2.2 asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu |
| | **2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad** | 2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles<br>2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol<br>2.3.3 trefniadau diogelu<br>2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol |
| | **2.4 Yr amgylchedd dysgu** | 2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>2.4.2 amgylchedd ffisegol |
| 3 ARWEINYDDIAETH | **3.1 Arweinyddiaeth** | 3.1.1 cyfeiriad strategaeth ac effaith yr arweinyddiaeth<br>3.1.2 llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill |
| | **3.2 Gwella ansawdd** | 3.2.1 hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill<br>3.2.2 cynllunio a sicrhau gwelliant |
| | **3.3 Gweithio mewn partneriaeth** | 3.3.1 partneriaethau strategol<br>3.3.2 cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd |
| | **3.4 Rheoli adnoddau** | 3.4.1 rheoli staff ac adnoddau<br>3.4.2 gwerth am arian |

# Atodiad 2: Ffynonellau tystiolaeth

## Y prif ffynonellau tystiolaeth sy'n berthnasol i gwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd

| | Cwestiwn Allweddol 1 | | Cwestiwn Allweddol 2 | | | | Cwestiwn Allweddol 3 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1.1 | 1.2 | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 |
| **Arsylwi:** | | | | | | | | | | |
| Arsylwi sesiynau addysgu, hyfforddi a dysgu, taith ddysgu, hyfforddiant a thiwtorialau | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| Craffu ar waith cyfredol a blaenorol dysgwyr, gan gynnwys portffolios, recordiadau sain a fideo a thystiolaeth ffotograffig o unrhyw waith a wnaed, yn ogystal â marcio, sylwadau a gwaith dilynol | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | | |
| Arsylwi gweithdrefnau recriwtio ac arweiniad | | | ✓ | | ✓ | | | | | |
| Yr adnoddau dysgu sydd ar gael, gan gynnwys llyfrgell/canolfannau adnoddau dysgu ar safleoedd gwahanol; ystod briodol o lyfrau, adnoddau TGCh, offer ymarferol a deunyddiau clyweled i ategu dysgu, addysgu a hyfforddi, gan gynnwys offer arbenigol i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu ac/neu anableddau | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Cyflwr, ymddangosiad, defnydd adeiladau ar bob safle a pha mor addas ydynt at eu diben ar bob safle lle mae addysgu, hyfforddi a dysgu'n digwydd | | | | | | ✓ | | | | ✓ |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau, offer a chymhorthion arbenigol ac adnoddau eraill | | | | | | ✓ | | | | ✓ |
| **Dogfennau:** | | | | | | | | | | |
| Yr adroddiad hunanasesu a’r cynllun datblygu ansawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Brîff diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y coleg | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Y data diweddaraf ar ddeilliannau gan CDGOC, yn ogystal â data mwy diweddaraf fel y’i darparwyd gan y coleg | ✓ | | | | | | | | | |
| Data ar gyfraddau cadw, cyrhaeddiad, dilyniant, gwerth ychwanegol, presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr ar draws y coleg | ✓ | ✓ | | | | | | | | |
| Cofnodion o brofiad diagnostig, y niferoedd sy’n manteisio ar gymorth dysgu a’i effaith | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | |
| Trefniadau i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu ac/neu anableddau | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | | |
| Data ar ddysgwyr yn narpariaeth y bartneriaeth, gan gynnwys y ganran y maent yn ei chynrychioli yn y garfan oedran yn yr ardaloedd sy’n cael eu gwasanaethu gan y coleg, yn ogystal â threfniadau gwella ansawdd ar gyfer y ddarpariaeth a’r deilliannau ar gyfer unrhyw ddysgwyr sy’n ymgymryd â darpariaeth partneriaeth | ✓ | | | | | | | ✓ | | |
| Cynrychiolaeth y coleg ar fyrddau a phwyllgorau sy’n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno’r cwricwlwm 14-19 lleol | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwybodaeth am y targedau ar gyfer gwella a osodwyd gan y coleg | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Barn dysgwyr a chyflogwyr, fel y'i mynegwyd mewn holiaduron (neu ddogfennau tebyg eraill) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynlluniau strategol, gweithredol a busnes yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â gwella ansawdd, cymorth dysgwyr, iechyd a diogelwch, profion diagnostig, cyfle cyfartal ac amrywiaeth, cydraddoldeb hiliol, ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed | | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ystadegau rheoli a data arall a ddefnyddir i gynllunio a monitro darpariaeth | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Prosbectysau'r coleg ac unrhyw ddeunyddiau marchnata eraill | | | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| Gwybodaeth am y farchnad lafur, ymchwil i'r farchnad a'r dystiolaeth o'r defnydd a wneir ohoni | | | ✓ | | | | ✓ | | | |
| Dogfennau ar gysylltiadau a pherthnasoedd â cholegau eraill ac isgontractwyr | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dogfennau'r cwricwlwm, cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | |
| Gwybodaeth am staffio, gan gynnwys y strwythur rheoli, swydd ddisgrifiadau ar gyfer yr holl raddau staff, a pholisïau a chynlluniau ar gyfer datblygu staff yn ogystal â chofnodion o weithgareddau DPP ac unrhyw lawlyfrau staff a deunyddiau arweiniad | | | | | | ✓ | | | | ✓ |
| Trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a chofnodion o arsylwi gwersi a sesiynau hyfforddiant | | | | ✓ | | | | | ✓ | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asesiadau athrawon a hyfforddwyr a chofnodion o gynnydd a chyflawniad dysgwyr, gan gynnwys adroddiadau cynnydd i rieni a chyflogwyr | ✓ | | ✓ | ✓ | | | | | | |
| Cynlluniau dysgu unigol dysgwyr | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | | | |
| Cofnodion o achredu dysgu a phrofiad blaenorol dysgwyr | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| Adroddiadau dilyswyr allanol a mewnol | | | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | |
| Cynllun Iaith Gymraeg y coleg | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Cofnodion o unrhyw weithgarwch meincnodi a gynhaliwyd gan y coleg yng Nghymru a'r tu hwnt, fel y bo'n briodol | | | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Data gwerth ychwanegol a chofnodion o sut y caiff ei ddefnyddio i wella ansawdd | ✓ | | | ✓ | | | | | | ✓ |
| Cofnodion cyfarfodydd staff, timau cyrsiau, rheolwyr a llywodraethwyr, gan gynnwys is-bwyllgorau | | | | | | | ✓ | | ✓ | |
| Gwybodaeth am drefniadau rheoli'r gyllideb, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dyrannu cyllid i benawdau cyllideb, a pholisïau codi tâl | | | | | | | | | | √ |
| **Trafodaethau:** | | | | | | | | | | |
| Trafodaethau gyda dysgwyr, staff, cyflogwyr, llywodraethwyr, arbenigwyr ymweliadol a rhanddeiliaid | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Atodiad 3: Rheoliadau ac arweiniad

Mae’r dogfennau a restrir isod yn gyfuniad o reoliadau, mesurau a chylchlythyrau, ac fe’u darperir er mwyn i arolygwyr gyfeirio atynt. Nid yw’r rhestr yn hollgynhwysfawr ac nid yw wedi ei bwriadu i fod yn rhestr wirio i arolygwyr adolygu coleg. Fe’u darperir fel adnodd yn unig ar gyfer tîm arolygu, yn ôl yr angen. Mae angen i arolygwyr fod yn ymwybodol bod rheoliadau a mesurau yn ddogfennau statudol.

* Mae pob un o’r dogfennau’n berthnasol i Gwestiwn Allweddol 1 o ran eu heffaith ar ddeilliannau i ddysgwyr.

| | Cwestiwn Allweddol 1* | Cwestiwn Allweddol 2 | | | | Cwestiwn Allweddol 3 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 |
| **Cynllun Hygyrchedd:**<br>fel atodiad i’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br>Deddf Cydraddoldeb 2010 | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| **Cwricwlwm:**<br>Llwybrau Dysgu 14-19 Arweiniad II<br>Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009<br>Cylchlythyr 17/2006 (diweddarwyd Ebrill 2014) | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | |
| Trefniadau Cydweithredol Rhwng Colegau AB ac Ysgolion 007/2009 Chwefror 2009<br>Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru ISBN 978 0 7504 4787 4 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | |
| Darparu Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru (strategaethau i rai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – heb ei chyhoeddi hyd yn hyn) | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Strategaeth Addysg Gymraeg: Adroddiad Blynyddol | | | | | | | | | |
| Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | |
| **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |

| | Cwestiwn Allweddol 1* | Cwestiwn Allweddol 2 | | | | Cwestiwn Allweddol 3 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010<br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol | | | | | | | | | |
| **Polisi a Gweithdrefnau Diogelwch rhag Tân:**<br>Gorchymyn (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith) (Diogelwch rhag Tân) 2005 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| **Rhyddid Gwybodaeth:** rhaid i goleg gynnal a chyhoeddi Cynllun Cyhoeddi<br>(Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 adran 19) | | | | | | ✓ | | | |
| **Llywodraethu:**<br>Rheoliad Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Cymru) 2006<br>Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 | | | | | | ✓<br>✓ | | | |
| **Cadw Dysgwyr yn Ddiogel:**<br>Cyfrifoldebau cyrff llywodraethol ysgolion a sefydliadau AB a pherchenogion ysgolion annibynnol<br>Cylchlythyr LlC 158/2015 | | | | ✓ | | ✓ | | | |
| **Radicaleiddio ac eithafiaeth:**<br>Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | |
| **Diogelu:**<br>Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan; a chylchlythyr 34/02 CCC 'Amddiffyn Plant: atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg'<br>Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006: Gweithgareddau a Reolir yng Nghymru<br>Mewn Dwylo Diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn | | | | ✓ | | ✓ | | | |

| | Cwestiwn Allweddol 1* | Cwestiwn Allweddol 2 | | | | Cwestiwn Allweddol 3 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 |
| oedolion ar waith yng Nghymru, 2000<br>Diogelu plant mewn addysg – rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu dan Ddeddf Addysg 2002<br>Diogelu plant: gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004 – Mawrth 2007<br>Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol: 2010 | | | | ✓<br>✓<br>✓ | | ✓<br>✓<br>✓ | | | |
| **Cymwys am Oes 2014** | | | | | | | | | |
| **Iechyd a Diogelwch:**<br>Arweiniad ar gofnodi ac adrodd ar ddamweiniau/clefydau ar gyfer darpariaeth dan gontract<br>Cod ymarfer iechyd a diogelwch ar gyfer darpariaeth dan gontract<br>Cofnodi Damweiniau a Chlefydau<br>Cod ymarfer iechyd a diogelwch ar gyfer darpariaeth dan gontract | | | | ✓<br>✓ | ✓<br>✓ | ✓<br>✓ | | | |
| **Arall:**<br>Deddf Addysg (Cymru) 2014 – Cyhoeddwyd 12/5/14 | | | | | | ✓ | | | |

## Atodiad 4:  Gwrando ar ddysgwyr

Mae gwrando ar ddysgwyr yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol o gyflawniad, agweddau a lles dysgwyr.  Bydd arolygwyr yn ystyried canlyniadau arolygon o farn dysgwyr wrth benderfynu ar drywyddau ymholi yn y cyfnod cyn yr arolygiad.  Bydd barn dysgwyr hefyd yn dylanwadu ar arolygwyr wrth iddynt lunio barnau arfarnol ynghylch pa mor dda y mae'r coleg yn bodloni anghenion dysgwyr.

## Atodiad 5:  Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae barn dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn ffynonellau tystiolaeth ar gyfer pob cwestiwn allweddol.  Rhaid i arolygwyr sicrhau bod yr arfarniad o'r 10 dangosydd ansawdd yn cynnwys cyflawniadau, agweddau a lles pob dysgwr, gan roi ystyriaeth benodol i ddeilliannau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i nodi disgyblion y mae eu hanghenion dysgu  yn ychwanegol at anghenion y mwyafrif o'u cyfoedion. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn is-gategori o anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael ei ddefnyddio i nodi'r dysgwyr hynny sydd ag anawsterau dysgu difrifol, cymhleth a/neu benodol, fel yr amlinellir yn Neddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys y rhai sydd ag:

- anghenion addysgol arbennig (AAA)
- anableddau
- anghenion meddygol
- anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol ac/neu anghenion iechyd meddwl

Mae dysgwyr yn fwy tebygol o fod ag ADY pan fyddant yn perthyn i grwpiau sy'n agored i niwed hefyd, gan gynnwys:

- grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- ffoaduriaid/ceiswyr lloches
- gweithwyr mudol
- plant y gofelir amdanynt (PGA)
- rhieni ifanc a merched ifanc beichiog
- troseddwyr ifanc
- plant a theuluoedd mewn amgylchiadau anodd
- dysgwyr sydd mewn perygl o ddioddef bwlio homoffobig
- gofalwyr ifanc
- dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol
- dysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol
- dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol
- Sipsiwn a Theithwyr

# Atodiad 6: Arweiniad ar ddefnyddio data wrth arolygu colegau addysg bellach

**Rôl data wrth lunio barnau ar CwA1 Safonau**

Data deilliannau'r coleg yw un o'r ffactorau cyfrannog yn unig wrth lunio barn ar safonau (Dangosydd Ansawdd 1.1). Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried tystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad o'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn eu hastudiaethau, y cynnydd a wnânt o'u mannau cychwyn a'u cynnydd wrth symud ymlaen i lefelau dysgu pellach ac uwch a chyflogaeth.

**Ffynonellau gwybodaeth**

Y brif ffynhonnell wybodaeth y bydd arolygwyr yn ei defnyddio yw data cyhoeddedig swyddogol Llywodraeth Cymru, sy'n deillio o gronfa ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC). Bydd arolygwyr yn defnyddio adroddiadau deilliannau dysgu, cyhoeddiadau ystadegol, tablau o gymaryddion cenedlaethol a phyrth gwybodaeth, fel StatsCymru a Hysbysu CDGOC. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio eu dadansoddiadau ar brif gymwysterau (fel y dangosir yn yr adroddiad deilliannau dysgu) a chyrsiau sylweddol sydd â mwy o oriau dysgu (y rhai sydd â chyfanswm dysgu o 150 o oriau dysgu dan arweiniad neu'n fwy), yn seiliedig ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

Bydd arolygwyr yn defnyddio tablau a luniwyd gan Estyn o ddata Llywodraeth Cymru a CDGOC, sy'n cymharu colegau ac yn dangos safle'r coleg a'i dueddiadau perfformiad dros amser. Hefyd, gall arolygwyr lunio eu dadansoddiadau eu hunain ar gyfer arolygiadau unigol, a fydd yn cael eu rhannu â'r enwebai yn yr arolygiad y cânt eu defnyddio ynddo.

Hefyd, gall arolygwyr ddefnyddio data cyhoeddedig arall gan sefydliadau fel y Cydgyngor Cymwysterau, sefydliadau dyfarnu, Llywodraeth Cymru neu adrannau eraill Llywodraeth y DU.

Bydd arolygwyr yn ystyried data heb ei gyhoeddi o'r flwyddyn honno neu ddata arall a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan y darparwr. Gallai'r rhain gynnwys dadansoddiadau o ffynonellau sydd ar gael yn fasnachol, er enghraifft mesurau gwerth ychwanegol, neu ganlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer llythrennedd neu rifedd. Gallant gynnwys ystadegau presenoldeb neu gyfraddau dilyniant o gwrs un lefel i'r lefel nesaf oddi mewn i'r darparwr. Bydd angen i arolygwyr wirio cadernid unrhyw ddata a ddarperir gan y coleg. Sut bynnag, caiff data'r darparwr ei hun ei ddefnyddio fel ffynhonnell ddata ategol yn hytrach na phrif ffynhonnell ddata.

Bydd arolygwyr yn disgwyl i golegau fod yn gwbl gyfarwydd â'u data. Yn ystod cam un, bydd arolygwyr yn siarad yn fanwl â rheolwyr meysydd dysgu i archwilio'r trywyddau ymholi sy'n gysylltiedig â data. Yn ystod cam dau, bydd arolygwyr yn siarad ag uwch arweinwyr a rheolwyr data i ddilyn trywyddau ymholi ar lefel y coleg cyfan. Mae rhai o'r agweddau pwysig y mae angen i ddarparwyr feddu ar ddealltwriaeth fanwl ohonynt yn cynnwys: pa mor dda y mae eu darpariaeth yn paratoi grwpiau gwahanol o ddysgwyr i symud ymlaen i gwrs lefel uwch, addysg

uwch neu gyflogaeth; data ar gyfraddau cyrhaeddiad a llwyddiant ar gyfer cyrsiau yn ôl lefel, oedran, grwpiau gwahanol o ddysgwyr, y cyfrwng astudio (Cymraeg neu Saesneg); a oes unrhyw wahaniaethau mewn perfformiad rhwng campysau neu rhwng colegau etifeddol mewn sefydliadau sydd wedi uno; tueddiadau mewn perfformiad ar draws blynyddoedd blaenorol; sut mae dysgwyr yn symud ymlaen o gymharu â'u mannau cychwyn; cyrchfannau dysgwyr ar ôl iddynt gwblhau cwrs; a sut mae eu dadansoddiad eu hunain o ddata yn llywio'r broses hunanarfarnu a chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Mae Estyn yn cydnabod bod hwn yn gyfnod o newid sylweddol i gymwysterau a'r cwricwlwm, a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno nifer o fesurau data newydd. Bydd arolygwyr yn defnyddio synnwyr cyffredin wrth lunio barnau ar safonau mewn perthynas â'r mesurau newydd. Bydd pob barn yn destun prosesau sicrhau ansawdd a chymedroli Estyn.

**Ystod y wybodaeth i'w hystyried**

Yng ngham un yr arolygiad, bydd arolygwyr yn edrych ar ddetholiad o feysydd dysgu ar draws y coleg. Mewn rhai achosion, efallai na fydd y meysydd dysgu sy'n cael eu dewis ar gyfer eu harolygu yng ngham un yn disgyn oddi mewn i ffiniau categorïau Meysydd Pwnc Sector CDGOC. Yn yr achosion hyn, bydd arolygwyr yn trafod y setiau data a ddefnyddir mewn unrhyw ddadansoddiad â'r coleg.

Yng ngham dau, bydd arolygwyr yn edrych ar ddata cyffredinol y coleg cyfan.

Wrth ystyried nifer y dysgwyr sydd wedi eu hymrestru ar gyrsiau mewn meysydd sector pwnc neu feysydd dysgu, bydd arolygwyr yn rhoi'r pwys mwyaf yn eu dadansoddiadau ar gyfraddau llwyddo (cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau ac yn ennill y cymhwyster y gwnaethant ymgymryd ag ef). Bydd arolygwyr yn blaenoriaethu cyfraddau llwyddo dysgwyr ar brif gymwysterau a chyrsiau sylweddol a chymwysterau – y rhai sydd â chyfanswm dysgu o 150 o oriau dysgu dan arweiniad neu'n fwy. Hefyd, byddant yn ystyried deilliannau cyrsiau sydd â llai o oriau dysgu dan arweiniad.

Yn ogystal, bydd arolygwyr yn ystyried:

- cyfraddau cwblhau (cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs y gwnaethant ymgymryd ag ef) a chyrhaeddiad (cyfran y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster y gwnaethant ymgymryd ag ef)
- canlyniadau mewn TGAU mathemateg neu mathemateg-rhifedd / Saesneg / Cymraeg
- canlyniadau Bagloriaeth Cymru
- canlyniadau cymwysterau sgiliau hanfodol

Hefyd, gall arolygwyr ystyried pa mor dda y mae grwpiau penodol o ddysgwyr yn cyflawni, er enghraifft dysgwyr ar gyrsiau hir a chyrsiau byr, dysgwyr gwrywaidd a benywaidd, dysgwyr amser llawn a rhan-amser, dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, dysgwyr o ardaloedd difreintiedig, dysgwyr ar lefelau penodol, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr ag anableddau, dysgwyr o grwpiau oedran gwahanol, dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg.

## Defnyddio data i helpu i lunio barnau

Bydd arolygwyr yn defnyddio cymaryddion cenedlaethol cyhoeddedig i fesur perfformiad meysydd dysgu neu'r coleg cyfan o gymharu â'r sector. Hefyd, bydd arolygwyr yn defnyddio cymaryddion cenedlaethol ar gyfer dangosyddion penodol a luniwyd gan Estyn o ddata CDGOC Llywodraeth Cymru. Ar gyfer dangosyddion heb gymharydd cenedlaethol, bydd arolygwyr yn defnyddio data i ychwanegu cyd-destun, ond byddant yn ei ddefnyddio'n geidwadol fel sail ar gyfer llunio barnau.

Yng ngham un, bydd arolygwyr yn edrych ar yr ystod lawn o gyrsiau yn y maes dysgu ac yn nodi cydbwysedd y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Byddant yn rhoi'r pwys mwyaf ar brif gymwysterau a chyrsiau sylweddol.

Yng ngham dau, bydd arolygwyr yn ystyried perfformiad cymharol (graddedig) y maes dysgu neu'r coleg o gymharu â cholegau eraill. Bydd arolygwyr yn ystyried perfformiad y maes dysgu neu'r coleg o gymharu â'r cymaryddion cenedlaethol. Bydd arolygwyr yn ystyried gwerth absoliwt cymharydd cenedlaethol wrth ei ddefnyddio fel sail ar gyfer barnu perfformiad.

Hefyd, bydd arolygwyr yn ystyried nifer y dysgwyr sydd wedi eu hymrestru ar gyrsiau mewn meysydd sector pwnc neu feysydd dysgu. Er enghraifft, wrth lunio barnau, efallai y byddant yn rhoi llai o bwys ar gwrs sydd ag ychydig iawn o ddysgwyr o gymharu â chwrs sydd â llawer o ddysgwyr.

Bydd arolygwyr yn edrych ar ddata'r flwyddyn gyhoeddedig ddiweddaraf fel y 'flwyddyn gyfeirio', ond bydd yn rhoi pwyslais ar dueddiadau tair blynedd mewn perfformiad. Hefyd, gallant ystyried data'r coleg heb ei gyhoeddi pan fo modd sicrhau ei gadernid.

Bydd arolygwyr yn defnyddio'r disgrifwyr enghreifftiol yn adrannau'r ddogfen hon sy'n ymwneud â Chwestiwn Allweddol 1 ar gyfer cam un a cham dau. Mae'r disgrifwyr yn cyfeirio at wybodaeth am ddata'r coleg a safon gwaith dysgwyr a'r cynnydd a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Sicrhau ansawdd

Bydd pob barn yn destun prosesau sicrhau ansawdd a chymedroli Estyn.

## Disgrifwyr niferoedd Estyn

Mae Estyn yn defnyddio'r termau canlynol i ddisgrifio niferoedd a chyfrannau:

- bron bob un – gydag ychydig iawn o eithriadau
- y rhan fwyaf – 90% neu fwy
- llawer – 70% neu fwy
- mwyafrif – dros 60%
- hanner – 50%
- tua hanner – yn agos at 50%
- lleiafrif – o dan 40%
- ychydig – o dan 20%
- ychydig iawn – o dan 10%

# Atodiad 7: Arweiniad ar weithgarwch dilynol

## Cefndir

Rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru am ganlyniadau pob arolygiad, gan gynnwys y categori gweithgarwch dilynol.

Yn ystod pob arolygiad, bydd y tîm arolygu yn ystyried lefel y gweithgarwch dilynol ar ddiwedd cam dau. Mae gweithgarwch dilynol yn cynnwys lefelau cynyddol o ymyrraeth yn gymesur â'r angen.

Mae tri math o weithgarwch dilynol:

1 **Astudiaeth achos arfer ragorol**
2 **Monitro gan dîm Estyn**
3 **Ailarolygiad**

Mae'r gweithgarwch dilynol cyntaf yn cynnwys gweithredu gan y darparwr i lunio astudiaeth achos arfer ragorol i'w lledaenu gan Estyn.

Fel arfer, mae'r ail yn cynnwys ymweliad gan dîm bychan o arolygwyr Estyn.

Mae'r olaf yn cynnwys ailarolygiad. Yn amodol ar y canlynol, bydd Estyn yn gwneud cyfeiriad at Lywodraeth Cymru a all arwain at ymyriadau cyllidol neu gytundebol.

Ym mhob un o'r tri math o weithgarwch dilynol, cyn pen pum niwrnod o ddiwedd yr arolygiad, bydd yr ACof:

- yn llenwi adran berthnasol y FfF Adrodd;
- yn rhoi'r FfF Adrodd wedi'i llenwi yn adran dogfennau arolygu'r YAR; ac
- yn rhoi gwybod i'r CydA dynodedig trwy neges e-bost ac yn anfon copi i flwch negeseuon y CydA yn ic@estyn.llyw.cymru

## 1 Astudiaeth achos arfer ragorol

Os bydd darparwr yn cael barn ragorol ar gyfer unrhyw ddangosydd ansawdd, yna bydd y tîm arolygu wedi nodi un neu efallai fwy o enghreifftiau o arfer sy'n arwain y sector yn y darparwr sy'n werth ei hefelychu ac sy'n haeddu cael ei lledaenu yn ehangach. Dylid trafod y posibilrwydd hwn yn ystod cyfarfodydd tîm, pan fydd arfer sy'n arwain y sector wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth lunio unrhyw farn ragorol.

Yn yr achosion hyn, gall yr arolygydd cofnodol wahodd y darparwr i baratoi un neu ddwy astudiaeth achos ysgrifenedig heb fod yn fwy na 600 o eiriau, a gall unrhyw ddeunydd enghreifftiol gyd-fynd â hi, os yw'n briodol[1], a hynny'n disgrifio'r arfer sy'n arwain y sector. Dylid esbonio'n glir i'r darparwr bod yr arolygiaeth yn cadw'r hawl i olygu'r cynnwys a'r arddull gyflwyno. Dylai'r astudiaeth achos ddisgrifio cyd-destun a

[1] Bydd angen y cliriad angenrheidiol ar gyfer delweddau ffotograffig o blant a phobl ifanc.

chefndir yr arfer orau, union natur y strategaeth neu'r gweithgarwch, a beth fu'r effaith ar ddeilliannau i ddysgwyr, hyfforddeion neu gleientiaid. Rhaid i'r astudiaeth achos fod yn un y gall darparwyr eraill yn yr un sector, neu sectorau tebyg eraill o bosibl, graffu arni a'i hystyried yn arfer sy'n arwain y sector.

Dylid anfon yr astudiaeth achos i Estyn cyn pen pedair wythnos o ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle. Rhaid cyflwyno llythyr neu e-bost gyda'r astudiaeth achos yn dangos ei bod wedi ei chymeradwyo i'w defnyddio gan yr arolygiaeth, a'i llofnodi gan uwch arweinydd y darparwr.

Yn ddiweddarach, gall y darparwr gael ei wahodd hefyd i ddangos ei arfer sy'n arwain y sector yn un o gynadleddau Estyn ar arfer orau. Gellid lledaenu'r enghraifft trwy gyfryngau amrywiol, gan gynnwys gwefan yr arolygiaeth, cylchlythyrau, cyhoeddiadau arfer orau ar gyfer y sector, yn Adroddiadau Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ac mewn digwyddiadau arfer orau. Fel arfer, bywyd cyhoeddi o dair blynedd fydd gan astudiaethau achos. Os ydynt wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Estyn, byddant fel arfer yn cael eu tynnu oddi ar y wefan ar ôl y cyfnod hwn, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn amserol ac ar y blaen o ran arfer ragorol.

## 2 Monitro gan dîm Estyn

Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr mewn adroddiad arolygiad craidd yn ddigonol, ond nid yw'r darparwr yn peri pryder i'r graddau bod angen ailarolygiad arno ar hyn o bryd. I gael y lefel hon o weithgarwch dilynol, byddai cwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd wedi cael eu barnu'n ddigonol, o leiaf. Byddai'n bosibl bod o leiaf rai cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd wedi eu barnu'n dda. Fodd bynnag, byddai gan y darparwr rai meysydd pwysig i'w gwella y mae'n ofynnol eu monitro.

Os bernir bod angen monitro gan Estyn ar y darparwr, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth uwch arweinydd y darparwr ar ddiwedd yr arolygiad craidd bod y tîm wedi llunio'r farn hon, a rhoi gwybod i'r rheolwyr perthnasol yn Estyn.

Yn amodol ar gymedroli, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr i'r darparwr, ac yn anfon copi ohono i Lywodraeth Cymru, yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ac yn esbonio y bydd Estyn yn monitro'r darparwr. Fel arfer, bydd tîm bychan o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os bydd arolygwyr yn barnu na wnaed cynnydd digonol, yna gellir barnu bod angen gwelliant sylweddol ar y darparwr, a gallai hyn arwain at ailarolygiad.

Caiff canlyniadau monitro gan dîm Estyn eu cyhoeddi ar wefan Estyn a byddant yn nodi'r rhagolygon gwella a gweithgarwch dilynol yn y dyfodol.

## 3 Ailarolygiad

Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr mewn adroddiad arolygiad craidd yn anfoddhaol.

I gael y lefel hon o weithgarwch dilynol, byddai un neu fwy o gwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd wedi cael eu barnu'n anfoddhaol. Byddai'n bosibl bod o leiaf rai cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd wedi eu barnu'n ddigonol. Fodd bynnag, byddai gan y darparwr feysydd pwysig i'w gwella y mae angen eu hailarolygu.

Os bernir bod angen ailarolygiad ar y darparwr, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth uwch arweinydd y darparwr ar ddiwedd yr arolygiad craidd bod y tîm wedi llunio'r farn hon a rhoi gwybod i'r rheolwyr perthnasol yn Estyn.

Bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr i'r darparwr, ac yn anfon copi ohono i Lywodraeth Cymru, yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ac yn esbonio amseriad yr ailarolygiad.

Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr yn y meysydd hynny o'r arolygiad gwreiddiol y barnwyd eu bod yn anfoddhaol.

Os bydd y tîm yn barnu y gwnaed cynnydd annigonol ar ddiwedd ailarolygiad, yna bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am hyn fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â pharhad contract Llywodraeth Cymru gyda'r darparwr, neu ei dynnu'n ôl.